**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**CYNGOR CENEDLAETHOL - ELWa**
**TYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

## CYFLWYNIAD

Darperir y dystiolaeth ar ran Cyngor Cenedlaethol - ELWa. Ffurfiwyd Cyngor Cenedlaethol – ELWa ym mis Ebrill 2001, gan ddwyn ynghyd y rhan fwyaf o gyfrifioldebau Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (CCABC), pedwar Cyngor Hyfforddi a Menter Cymru (CHMau) a Chyngor CHMau Cymru, ynghyd â'r cyfrifoldebau am addysg oedolion ac addysg barhaus a oedd yn rhan o gylch gorchwyl yr awdurdodau lleol yn flaenorol. Mae'n gyfrifol am ariannu, cynllunio, sicrhau a hyrwyddo addysg a hyfforddiant ôl 16 yng Nghymru, ar wahân i addysg uwch. Bydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am ariannu'r ddarpariaeth ôl 16 mewn ysgolion o fis Ebrill 2002.

Mae Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn gweithio gyda Chyngor Addysg Uwch - ELWa i ddatblygu cyfleoedd dysgu dwyieithog yn eu sectorau. Gwneir hyn er mwyn cael ymagwedd gydlynus dan faner ELWa, yn enwedig o ran cynnydd, adnoddau a'r defnydd o dechnoleg. Mae'r Cynghorau hefyd yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd, yn ôl gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Y dyddiad targed ar gyfer ei gyflwyno yw Mai 2002.

## CYD-DESTUN TYSTIOLAETH CYNGOR CENEDLAETHOL – ELWa

Mae tystiolaeth Cyngor Cenedlaethol – ELWa i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn seiliedig ar adolygiad trylwyr o'r polisïau a'r gweithrediadau a etifeddwyd ganddo sy'n cefnogi dwyieithrwydd[1]. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yng nghyd-destun datblygu strategaeth gorfforaethol ddrafft Cyngor Cenedlaethol - ELWa am y deng mlynedd nesaf a'r Cynllun Corfforaethol am 2002-05. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn y papur hwn yn adeiladu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Diwylliant ym mis Tachwedd 2001.

Mae gweledigaeth Cyngor Cenedlaethol - ELWa ar gyfer dysgu yng Nghymru i'w weld yn glir yn y datganiad ***"Making Learning Work for You – Mynnwch ELWa ar Ddysg"***. Ei genhadaeth yw ***"Hyrwyddo dysgu gydol oes a darparu cyfleoedd dysgu gyda'r gorau yn y byd er mwyn i bawb yng Nghymru wireddu'u potensial"***. Mae'r datganiadau hyn yn sail i holl ddyheadau, datblygiad polisïau a gweithrediadau Cyngor Cenedlaethol – ELWa.

Mae dwyieithrwydd wedi cael ei bennu fel thema trawsbynciol yn strategaeth gorfforaethol ddrafft Cyngor Cenedlaethol – ELWa. Mae'r themâu trawsbynciol yn greiddiol i holl strategaethau a pholisïau Cyngor Cenedlaethol – ELWa ac yn greiddiol i'w waith mewnol. Mae'r strategaeth gorfforaethol yn cydnabod y cynnydd yn y galw am ddysgu dwyieithog ôl 16, a'r cyfleoedd

[1] Defnyddir y geiriau *dwyieithog* a *dwyieithrwydd*, er mwyn bod yn gryno, i olygu dysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Gymraeg a'r Saesneg, a dysgu Cymraeg i oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

gwell sydd ar gael ar gyfer hyn. Nod Cyngor Cenedlaethol – ELWa yw sicrhau bod unigolion, busnesau a chymunedau yn cael dewis gwirioneddol pa un i ymgymryd â dysgu'n ddwyieithog neu beidio. I'r diben hwn, mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y galw am gyfleoedd dysgu dwyieithog a'r cyfleoedd fydd ar gael ar gyfer hynny.

Mae cysylltiad cryf rhwng cyfrannu at addysg a hyfforddiant dwyieithog ac un o themâu trawsbynciol Cyngor Cenedlaethol – ELWa sef cyfle cyfartal. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleoedd i gael addysg a hyfforddiant dwyieithog yn amrywio'n fawr o ardal i ardal ac mae'n ymddangos nad yw'n debyg o adlewyrchu tueddiadau cyfredol na thueddiadau'r dyfodol. Mae datblygu dwyieithrwydd hefyd yn gysylltiedig ag un arall o themâu trawsbynciol Cyngor Cenedlaethol – ELWa sef cynhwysiad cymdeithasol, trwy sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Cymru'n gallu cyfrannu'n llawn at fywyd diwylliannol Cymru, a thrwy hynny gyfrannu at ddatblygu cymdeithas gynhwysol.

**DATBLYGIAD POLISI CYNGOR CENEDLAETHOL – ELWa AR DDWYIEITHRWYDD**

Etifeddodd Cyngor Cenedlaethol –ELWa bolisïau a gweithrediadau'r cyn Gyngor Cyllido Addysg Bellach ar gyfer ehangu dwyieithrwydd yn y sector addysg bellach (Gweler Atodiad 1).

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar strategaeth gorfforaethol Cyngor Cenedlaethol – ELWa, cyfarfu Grwp Ffocws Dysgu Dwyieithog a Chyfrwng Cymraeg ar 7/8 Tachwedd 2001 er mwyn cael sylwadau ar weithgarwch y gorffennol a'r presennol ac i gael syniadau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Gellir crynhoi asesiad y Grwp Ffocws o'r sefyllfa gyffredinol yn fyr fel a ganlyn: mae ysgolion yn gwneud cynnydd, dim ond canran fechan o addysgu ac asesiadau sy'n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg bellach, ac ychydig o ddarpariaeth ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg ffurfiol sydd ar gael mewn hyfforddiant yn y gwaith. O'r sefyllfa hon y mae Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn symud ymlaen. (Gwelir adroddiad y Grwp Ffocws yn Atodiad 2).

Yn dilyn adroddiad y Grwp Ffocws, rydym wedi cychwyn paratoi rhaglen waith fanwl ar gyfer dwyieithrwydd ac opsiynau ynghylch sut y gellid ymgymryd â'r gwaith. Mae grwp bychan o arbenigwyr allanol, wedi'u dewis o blith aelodaeth ehangach y aelodaeth y Grwp Ffocws, yn adolygu awgrymiadau ac yn tywys y meddwl. Bydd Cyngor Cenedlaethol - ELWa yn ystyried argymhellion am bolisïau a gweithrediadau newydd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Mae Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn bwriadu cadw'r grwp o arbenigwyr fel ffynhonnell werthfawr o gyngor ac ar gyfer cael persbectif allanol.

**MEYSYDD ALLWEDDOL AR GYFER DATBLYGU POLISI**

Yn seiliedig ar gasgliadau'r Grwp Ffocws ac argymhellion y grwp o arbenigwyr, **bydd y Cyngor yn ystyried yr argymhellion canlynol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.** Bydd rhai o'r newidiadau a awgrymir i bolisïau yn cael eu gwneud trwy'r system ariannu cenedlaethol newydd a fydd yn cael ei

rhoi ar waith yn ystod 2004. Yn y cyfnod interim, bwriedir rhoi prosiectau peilot ar waith i weld sut y gellir defnyddio'r arian hyn yn fwy effeithiol er mwy sicrhau gwell cyfleoedd dysgu. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd dysgu dwyieithog.

**Strategaeth ac Arweinyddiaeth**

Dylai Cyngor Cenedlaethol – ELWa gymryd rôl arweiniol a strategol ochr yn ochr â phartneriaid blaenllaw cenedlaethol eraill, ACCAC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn y gwaith o ddatblygu agenda ddysgu ddwyieithog ôl 16 yng nghyd-destun penderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn dilyn adolygiadau'r Pwyllgor Diwylliant a Dysgu Gydol Oes. Manteision hyn fyddai datblygu fframwaith polisi a strategaeth genedlaethol integredig glir a fyddai:

- yn rhoi cyfeiriad ac arweinyddiaeth i gyfranogwyr allweddol;
- yn sicrhau gwell cydlyniad rhwng darparwyr a chyrff eraill;
- yn gwella'r gwaith o ddosbarthu ymarfer da a'i sefydlu; ac
- yn ysgogi ymagweddau deinamig a blaengar.

**Cydlynu**

Dylai Cyngor Cenedlaethol – ELWa sefydlu adnodd arbenigol mewnol. Byddai'r aelodau staff hyn yn darparu'r modd gweithredol o osod a chyflawni amcanion polisi ac yn sicrhau cydlyniad effeithiol, seilwaith ddysgu briodol a hefyd sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda.

Bwriedir i rannau priodol o'r gwaith gweithredol gael ei wneud gan fudiadau eraill dan gytundeb. Bydd pob cytundeb cyfredol yn cael ei adolygu i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r strategaeth newydd, ac i sicrhau eglurder rôl a phwrpas a gwerth ychwanegol y contractwr. Dylid anelu at adeiladu ar ymarfer gorau presennol tra'n defnyddio ymagwedd mwy integredig a chydlynus yr un pryd.

O fewn Cyngor Cenedlaethol – ELWa, byddai'r adnodd mewnol yn darparu ffocws ar gyfer aelodau staff eraill, ffynhonnell gyngor, a ffordd o sicrhau bod thema trawsbynciol dwyieithrwydd yn cael ei hymgorffori i bob agwedd ar ddatblygu polisi, gweithrediadau a threfniadaethau mewnol. Byddai'r adnodd arbenigol mewnol yn arwain ac yn cydlynu'r gwaith, ond gall llawer o'r camau gweithredu allweddol fod yn gyfrifoldeb cyfarwyddiaethau neu ranbarthau eraill gyda rhannau o'u cyllidebau wedi'u clustnodi ar eu cyfer. Bydd y dull hwn o weithredu yn gwella dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r thema trawsbynciol dwyieithrwydd yn fewnol gan osgoi'r perygl i ddwyieithrwydd gael ei ynysu mewn 'uned'. Bydd yn sicrhau bod anghenion dwyieithrwydd yn cael eu hystyried mewn cynllunio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a bod ystyriaeth lawn yn cael ei roi iddo wrth wneud pob penderfyniad a chyda phob gweithredu. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gan yr adnodd arbenigol rôl bwysig mewn hyfforddi staff er mwyn gwella'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth.

**Cyfleoedd Datblygu**

Mae angen buddsoddiad ar sawl agwedd ar ddysgu dwyieithog. Dyma'r rhai sydd wedi dod i'r amlwg:

Hyfforddwyr / Staff Addysgu

Mae prinder staff sy'n gallu dysgu'n ddwyieithog. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon bydd angen cynyddu nifer y staff a'r hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu recriwtio, a darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff newydd a staff presennol i'w galluogi i ennill yr hyder a'r sgiliau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. I wneud hyn, bydd Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn gweithio'n agos gyda Chyngor Addysg Uwch – ELWa (sy'n ariannu hyfforddiant athrawon cychwynnol) i wella'r cyflenwad athrawon.

Codi'r Galw a Chodi Ymwybyddiaeth

Byddai diwallu anghenion economi, cymunedau ac unigolion yn golygu y byddai galw mawr am addysg a sgiliau iaith Gymraeg. Mae tystiolaeth gan gyflogwyr yn barod yn dangos fod dwyieithrwydd yn bwysig yn economaidd. Mae gwaith a wnaed gan Cwmni Iaith a'r Mentrau Iaith wedi dangos fod cyflogwyr fwyfwy eisiau gweithwyr sy'n berchen ar sgiliau dwyieithog. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant yn y gwaith dwyieithog. Ceir sawl rheswm am hyn. Un o dasgau pwysicaf Cyngor Cenedlaethol – ELWa fydd cynyddu'r galw gan fyfyrwyr a hyfforddeion i gyd-fynd â'r angen. Gallai'r camau gweithredu cynnar posibl gynnwys datblygu prosiect[2] Gorwelion Menter a Busnes i ddangos pa mor werthfawr y gall sgiliau iaith Gymraeg fod i gael gwaith.

Bydd gan Gyfarwyddiaeth Cyfranogi a Chyfathrebu Cyngor Cenedlaethol – ELWa rôl bwysig yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.

Darpariaeth

Ar ôl buddsoddi'n drwm mewn addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, mae'n hanfodol fod darpariaeth ar gael i fyfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo i'r sector ôl 16.

Ceir ymdeimlad cyffredinol nad yw'r cwricwlwm cenedlaethol cyn 16 yn llawn ddatblygu sgiliau llafar. Mae'r rhaglen Cymraeg i Oedolion ôl 19 yn meithrin sgiliau llafar, ond ar hyn o bryd mae bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer y grwp 16 – 19 oed. Mae angen gwella gallu'r grwp hwn i fod yn rhugl yn y Gymraeg, er mwyn iddynt fod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac mewn bywyd bob dydd. Gallai hyn fod yn hynod fanteisiol i fusnesau sydd â pherthynas uniongyrchol â'u cwsmeriaid. Gallai hefyd roi'r gallu a'r hyder iddynt astudio'n ddwyieithog, a byddai hynny yn ei dro yn cael effaith ar gyfranogiad, gan gynnwys symud i addysg uwch. Mae gan ACCAC rôl

[2] Arolwg o gyflogwyr a gynhaliwyd mewn rhannau o Gymru i nodi'r gofynion o ran sgiliau dwyieithog ac i ddarparu deunyddiau ar gyfer y gwasanaethau gyrfaoedd yn ei sgîl.

statudol i fonitro darpariaeth ddwyieithog cyrff dyfarnu ac mae hefyd yn gyfrifol am ddarparu arweiniad ar y cwricwlwm i ysgolion at 19 oed; mae rhywfaint o'r arweiniad hwn yn berthnasol i sefydliadau addysg bellach. O ganlyniad, mae'n bwysig fod Cyngor Cenedlaethol – ELWa ac ACCAC yn cydweithio'n llwyddiannus.

Yr un mor bwysig yw ceisio mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cyfranogiad ar wahanol gamau mewn addysg ddwyieithog gan bod myfyrwyr yn teimlo nad yw o unrhyw werth iddynt aros yn y system iaith Gymraeg. Bydd angen gwneud gwaith pellach am y rhesymau dros hyn[3], gan gynnwys effaith bosibl y ddarpariaeth ôl 16 ar gyfranogiad cyn 16. Mae Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn rhagweld y bydd yn rhaid iddo weithio'n agos gydag Estyn, a all ystyried materion eang fel hyn fel rhan o'i arolygon maes, yn ogystal â materion mwy penodol megis y ddarpariaeth iaith Gymraeg i oedolion sy'n dysgu. Bydd gan Estyn hefyd rôl o ran canfod arfer da ac ansawdd da.

O fis Ebrill 2002 bydd y Cyngor Cenedlaethol yn ariannu dosbarthiadau chwech ysgolion. Bydd y dimensiwn ychwanegol hwn yn cadarnhau'r angen i ddatblygu modelau cyflwyno a fydd yn adlewyrchu proffiliau ieithyddol y gwahanol rannau o Gymru. Mae gan y Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol rôl bwysig yn hyn o beth o ran cynllunio lleol, gan gynnwys yr angen i ystyried materion ac atebion traws-ffiniol. Tra'n datblygu rôl y Consortia, bydd angen i'r Cyngor Cenedlaethol ystyried sefyllfa'r wyth consortiwm Cymraeg i Oedolion sy'n bodoli i gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

Adnoddau Dysgu

Gan weithio mewn partneriaeth ag ACCAC, bydd Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn ystyried faint y bydd yn rhaid iddynt fuddsoddi mewn adnoddau. Yn ychwanegol at ddeunyddiau traddodiadol, bydd rhaid manteisio ar y cyfleoedd sy'n dod yn sgîl e-ddysgu a TGCh newydd. Mae'n hanfodol cael ymagwedd strategol er mwyn gwneud hyn yn dda.

Datblygu Addysgeg

Mae'r niferoedd mawr o bobl ddwyieithog yng Nghymru yn darparu sylfaen ardderchog ar gyfer datblygu sgiliau amlieithog yn y boblogaeth, sydd yn eu tro'n darparu buddion economaidd. Mae cyfle i ddefnyddio'r profiad o addysgu dwyieithog Cymraeg / Saesneg fel ffordd o geisio datblygu addysgeg ail iaith effeithiol yn fwy eang.

Data ac Ymchwil

Mae cryn dipyn o ddata ar gael ond mae bylchau allweddol yn ein gwybodaeth. Mae'n hanfodol fod data'n cael ei gasglu'n gydlynus ac yn gynhwysfawr ar draws pob agwedd ar fywyd Cymreig, nid y system addysg yn

---

[3] Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Uned Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg Prifysgol Cymru ar y rhesymau am y diffyg galw mewn addysg uwch. Mae ymchwil gan Ganolfan Bedwyr ac a gomisiynwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru wedi awgrymu rhai o'r ffactorau mewn perthynas â'r ddarpariaeth AB.

unig. Hefyd bydd angen sail tystiolaeth wedi'i hymchwilio'n dda er mwyn datblygu polisïau. Yn neilltuol, dylai'r Cyngor Sgiliau Sector newydd, a fydd â pherthynas arbennig gyda Chyngor Cenedlaethol ELWa, allu wneud cyfraniad gwerthfawr trwy ystyried anghenion dysgu dwyieithog fel rhan o gynlluniau datblygu gweithlu'r sector.

Targedau

Bydd angen sefydlu targedau a phennu'r adnoddau a fydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r targedau hynny.

Er nad yw ymwneud Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn y cyfleoedd uchod byth wedi'i bennu, mae llawer o waith yn parhau ar ddatblygu cyfleoedd dysgu dwyieithog a chyfleoedd newydd yn cael eu gwireddu, er enghraifft:

- prosiectau ar y cyd rhwng ysgolion a cholegau i ddatblygu adnoddau dysgu newydd – wedi'u hariannu trwy brosiect a reolir gan Dysg a chynlluniau a grëwyd gan y Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol;
- cyfieithu a dosbarthu, yn rhad ac am ddim, ddeunyddiau dysgu Saesneg trwy wefan y Coleg Digidol; a
- Sgiliaith yn darparu hyfforddiant staff a rhwydweithio i ddarparwyr – cwmni y mae Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn un o'i prif noddwyr.

**RHAGLEN WEDI'I CHOSTIO A'I BLAENORIAETHU**

Bydd Cyngor Cenedlaethol – ELWa am ymateb, mewn partneriaeth ag ACCAC, Bwrdd yr Iaith a Chyngor Addysg Uwch – ELWa, yn egniol ac yn ddeinamig i'r sialensau hyn, gan adeiladu ar y sylfaeni sydd yn barod yn eu lle. Yr her fawr yw cynyddu'r galw a'r cyflenwi mewn cydbwysedd cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod er mwyn cwrdd ag anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru fel y'u pennir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd gan yr argymhellion a fydd yn cael eu rhoi gerbron y Cyngor yn ei gyfarfod mis Mawrth oblygiadau dynol a goblygiadau o ran cost. Asesir y rhain fel rhan o strategaeth a datblygiad polisi Cyngor Cenedlaethol – ELWa ac fe gytunir ar amserlen weithredu wedi'i chostio a'i blaenoriaethu o fewn cyllidebau presennol 2002-2003. Bydd ein Cynllun Corfforaethol drafft, 2003-2006, sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf, yn cynnwys cynigion ar gyfer cynllunio/buddsoddi hirdymor mewn cyfleoedd dysgu dwyieithog a'r costau cyfle o wneud hynny, o fewn cyllideb sydd yn gyffredinol yn eithaf statig.

**Atodiad 1**

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-16 (ac eithrio addysg uwch)**

1. **Y Cyngor Cenedlaethol – ELWa - Polisïau a Chyllido a etifeddwyd**

Mae'r Cyngor Cenedlaethol– ELWa wedi etifeddu cymysgedd o gynlluniau i gefnogi addysg a hyfforddiant iaith Gymraeg yn y sector ôl-16, fel a ganlyn:

- **Darpariaeth Cymraeg i Oedolion (CiO)** - cyllidir hon yn gyfan gwbl gan y Cyngor Cenedlaethol ac mae amrywiaeth eang o ddarparwyr ynghlwm wrtho, gan weithio gyda'i gilydd mewn consortia CiO. Fel y dengys yr enw, nod y ddarpariaeth hon yw dysgu Cymraeg i oedolion, a bydd swm o £3.1m yn cael ei wario yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- **Swyddog Cenedlaethol dros CiO ac arholiadau CiO** - darperir £100k y flwyddyn i dalu cyflog Swyddog Cenedlaethol i ddatblygu CiO, ac i dalu am arholiadau ar gyfer dysgwyr.
- **Uned Dwyieithrwydd** - bydd £55k ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ar gyfer yr Uned Sgiliaith newydd yng Ngholeg Meirion-Dwyfor. Sefydlwyd yr Uned i wasanaethu sefydliadau addysg bellach drwy ddatblygu adnoddau dysgu a chynnig hyfforddiant a chyngor ar fethodolegau addysgu dwyieithog. Bydd yn awr yn cofleidio darpariaeth ôl-16 yn ei hystyr ehangach, drwy weithio â'r chweched dosbarth mewn ysgolion a darparwyr eraill.
- **Darpariaeth ôl-16 ddwyieithog** - neilltuwyd £1.69m o gyllid premiwm ar gyfer 2001/02 i gyllido sefydliadau AB sy'n darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog. Mae hyn yn ychwanegol at yr uned gyllido safonol. Disgwylir y bydd cyfanswm o £10 miliwn yn cael ei ddyrannu i golegau AB ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dyrennir yr arian drwy'r Fethodoleg Cyllid Rheolaidd, sy'n cael ei hadolygu. Disgwylir y bydd newidiadau mawr i'r fethodoleg wedi cael eu gweithredu erbyn yr Hydref 2003.
- **Defnyddiau Dwyieithog drwy'r Project Rhyngrwyd** - bydd £100k ar gael i Dysg i reoli'r project hwn sy'n cynhyrchu deunyddiau dysgu newydd ar gyfer y we. Yr un fath â'r Uned Sgiliaith, bydd y project yn awr yn cwmpasu'r sector ôl-16 ehangach.

2. **Ffynonellau gwybodaeth**

Mae sawl ffynhonnell gwybodaeth a all fod o gymorth i ddatblygu polisi yn y dyfodol:

**Cyllido Darpariaeth AB Ddwyieithog a Chymraeg (Ymchwil gan Ganolfan Bedwyr ar ran CCABC)**

Wedi'i chomisiynu gan y Cyngor Cyllido Addysg Bellach ym 1999/2000, bu'r ymchwil hon yn ystyried sut y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog AB ei chyllido a daeth i'r casgliad nad oedd y fethodoleg bresennol wedi ysgogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Awgrymodd resymau:

- nid yw'r fethodoleg yn mynd i'r afael â'r diffyg go iawn mewn adnoddau dysgu ac mae gwneud iawn am y diffyg yn araf a drud;
- nid oes digon o staff sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- lle nad yw addysg cyfrwng Cymraeg yn weithgaredd creiddiol, nid yw'n cael llawer o gydnabyddiaeth yn y sefydliadau ac felly rhoddir blaenoriaeth isel iddi; ac
- amharodrwydd rhai myfyrwyr i ddilyn cyrsiau dwyieithog am wahanol resymau megis: pwysau cyfoedion; awydd i dorri cysylltiadau â 'thraddodiadau ysgol'; y gred bod cyrsiau Cymraeg yn golygu mwy o waith, efallai oherwydd diffyg deunyddiau dysgu a'r ffaith bod rhy ychydig o gyrff dyfarnu yn cynnig profion/arholiadau yn y Gymraeg; a diffyg hyder myfyrwyr yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Rhoddodd yr ymchwilwyr sylw i'r premiwm ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y fethodoleg cyllid rheolaidd ac i fodelau cyllido eraill. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cymryd i ystyriaeth ffactorau cymdeithasegol ehangach yn ogystal â nifer y myfyrwyr ar gyrsiau, mathau o gymwysterau, nifer y cyrsiau, costau is-strwythur ac ati. Yn ogystal, awgrymwyd y dylai taliadau adlewyrchu'r dulliau addysgu a ddefnyddir (dadansoddwyd sawl model) er mwyn hybu'r arfer gorau. Derbyniwyd yr adroddiad gan CCABC yn gynnar yn 2000 ac mae ar gael ar wefan CCABC. Cymerir yr argymhellion i ystyriaeth wrth ddatblygu'r system gyllido genedlaethol newydd, a hefyd wrth ddatblygu strategaeth a pholisïau'r Cyngor Cenedlaethol.

**Parhad mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg)**

Darganfu'r ymchwil hon a wnaed ym 1999 fod dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar allu'r system addysg i greu siaradwyr er mwyn cynnal y gyfran bresennol o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth (18.7% yn ôl cyfrifiad 1991) neu ei chynyddu. Adroddodd fod 20.9% o ddisgyblion ysgol gynradd yn mynd i ysgolion lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei haddysgu'n gyfan gwbl, yn bennaf neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod y gyfran yn disgyn i 12.9% mewn ysgolion uwchradd. Mewn sefydliadau AB, cafodd llai na 2% o fyfyrwyr eu hasesu yn y Gymraeg (nid oedd ystadegau ar gael ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth, felly mae'r wir ganran yn sicr o fod yn uwch). Mae'r data hyn yn cuddio amrywiadau rhanbarthol, rhai da a rhai drwg, ond, gan mai 12.9% yn unig o ddisgyblion at ei gilydd sy'n cwblhau eu haddysg hyd at 16 oed yn y Gymraeg, mae'n golygu nad yw digon o siaradwyr Cymraeg yn cael eu creu i gynnal y ganran bresennol ym mhoblogaeth Cymru.

**Astudiaeth o'r Angen am Sgiliau Iaith Cymraeg/Dwyieithog mewn Mentrau Bach a Chanolig yng Ngogledd Cymru ac Awgrymiadau ar gyfer Datblygiad a Hyfforddiant Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r Gymraeg (Cwmni Iaith ar gyfer Celtec)**

Wedi'i gomisiynu gan Celtec (2001), daeth yr adroddiad i'r casgliad na fuasai cymorth ar gyfer hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mor effeithiol ag y gallasai fod: roedd prinder cynlluniau i gefnogi hyfforddiant a darpariaeth a methiant i sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ddarparu yn ôl y galw neu ei hwyluso gan ddarparwyr (er bod Celtec yn disgwyl bod gan ei ddarparwyr bolisi iaith Gymraeg). Darganfuwyd bod galw gan gyflogwyr am sgiliau iaith Gymraeg mewn busnes ond nad yw darparwyr hyfforddiant yn cynnig y math o ddarpariaeth Gymraeg sy'n ofynnol i gwrdd ag anghenion yr economi. Gan edrych i'r dyfodol, argymhellodd yr adroddiad, ymhlith llawer o bethau eraill, y dylai ELWa:

- ymateb i anghenion lleol drwy weithio gyda phartneriaethau strategol a lleol;
- sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o ofynion ELWa;
- sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o fanteision medru'r Gymraeg ac o'r galw am siaradwyr Cymraeg ymhlith cyflogwyr;
- cydlynu datblygu adnoddau a chael darparwyr i gydweithio; a
- chefnogi datblygu cwrs sgiliau allweddol mewn cyfathrebu dwyieithog - sy'n orfodol/yn cael ei argymell yn gryf ar gyfer pob hyfforddai.

**Tystiolaeth Ystadegol**

Rhoddir data yn Atodiad 1A am ddarpariaeth ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg ac yn Atodiad 1B am Gymraeg i Oedolion.

Mae'n amlwg o Atodiad 1A:

- bod nifer y sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau o'r fath yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond bod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig gan chwe sefydliad yng ngogledd a gorllewin Cymru;
- bod nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau hyn a asesir yn y Gymraeg wedi cynyddu ond bod y cyfanswm yn fach iawn;
- bod y nifer a asesir yn y Gymraeg/yn ddwyieithog, fel canran o'r holl fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn, wedi gostwng; a
- bod canran yr holl fyfyrwyr ar gyrsiau wedi'u cyllido gan CCABC a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog yn isel iawn.

Mae'n amlwg o Atodiad 1B i nifer y myfyrwyr ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion:

- dyfu'n sylweddol rhwng 1994/95 a 1999/2000 er y bu gostyngiad yn 2000/01. Mae'n rhy gynnar i ddweud ai anhawster dros dro yw'r gostyngiad hwn neu a yw'n arwydd o duedd dymor hir; ac
- oherwydd y dull o gasglu data, nad yw'n bosibl dadansoddi dilyniant dysgwyr ond bod tystiolaeth gref o ffynonellau eraill mai cyfran fach yn unig o fyfyrwyr sy'n dod yn rhugl.

**Atodiad 1A**

**Cyrsiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach**

| Blwyddyn Academaidd | 1993/94 | 1994/95 | 1995/96 | 1996/97 | 1997/98 | 1998/99 | 1999/00 | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| Nifer y sefydliadau a ddarparodd gyrsiau | 17 | 16 | 19 | 19 | 17 | 11 | 12 | 15 |
| Nifer y myfyrwyr cofrestredig a aseswyd yn y Gymraeg | 2023 | 2288 | 2830 | 5550 | 4431 | 3503 | 4895 | 5483 |
| Nifer y myfyrwyr cofrestredig ar yr un cyrsiau na chawsant eu hasesu yn y Gymraeg | 1882 | 2346 | 3875 | 5498 | 4521 | 6821 | 6232 | 6022 |
| Asesiadau Cymraeg fel % o'r holl gofrestriadau ar y cyrsiau hyn | 51.8% | 49.4% | 42.2% | 50.2% | 49.5% | 33.9% | 44.0% | 47.7% |
| Cyfanswm y cofrestriadau a gyllidwyd gan CCABC/Cyngor Cenedlaethol | 136468 | 193735 | 255039 | 298873 | 304348 | 308381 | 353972 | 435106 |
| Asesiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y cofrestriadau a gyllidwyd gan CCABC/Cyngor Cenedlaethol | 1.5% | 1.2% | 1.1% | 1.9% | 1.5% | 1.1% | 1.4% | 1.3% |

*Ffynhonnell data: MIDFESS C*

**Atodiad 1B**

**Cofrestriadau wedi'u cyllido ar gyrsiau CiO rhwng 1994/95 a 2000/01**

| Blwyddyn Academaidd | **1994/95** | **1995/96** | **1996/97** | **1997/98** | **1998/99** | **1999/00** | **2000/01** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| Nifer y cofrestriadau a gyllidwyd | 15894 | 18966 | 20762 | 21643 | 21500 | 23634 | 21011 |

*Ffynhonnell: MCRh (cyllidadwy Ffurflen C – y gorau o FEES/MIDFESS gan gynnwys rhagfynegiadau)*
*Cafwyd 1994/95 a 1995/96 drwy hidlo yn ôl pwnc [pwnc astudio]='Q520' a maes rhaglen AB=18A. Nid oedd unrhyw ddata ar ddarpariaeth noddedig ar gyfer 1995/96.*
*Seilir data 1996/97 ar gofrestriadau lle mae [maes rhaglen]=1BA a [côd uwchddosbarth]=FK.357*

**Atodiad 2**

## Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa - Adroddiad y Grŵp Ffocws Dysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog 7-8 Tachwedd 2001

### CYFLWYNIAD

Amcan yr adroddiad hwn yw cyfrannu at ddatblygu strategaeth dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Mae'r dadleuon a'r safbwyntiau yn deillio o drafodaethau grŵp ffocws a ddygwyd ynghyd ar ran y Cyngor Cenedlaethol fel rhan o'i broses gynllunio gorfforaethol. Yn ogystal, mae'r Cyngor Cenedlaethol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gweithio mewn partneriaeth fel ELWa a bydd y ddau Gyngor yn ystyried sut y gallant gysylltu eu polisïau cyfrwng Cymraeg er lles y sector ôl-16 a'r sector addysg uwch fel ei gilydd. Felly roedd gan sawl aelod o'r grŵp ddiddordeb neu arbenigedd mewn addysg uwch ac roedd gan lawer un bersbectif a bontiai'r ddau sector.

Ffurfiwyd y Cyngor Cenedlaethol ym mis Ebrill 2001, drwy ddwyn ynghyd y rhan fwyaf o gyfrifoldebau Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (CCABC), y pedwar Cyngor Hyfforddi a Menter (CHM) yng Nghymru a Chyngor CHMau Cymru, a'r cyfrifoldebau a arferai fod gan yr awdurdodau lleol dros addysg oedolion ac addysg barhaus. Mae'n gyfrifol am gyllido, cynllunio, diogelu a hybu addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, ac eithrio addysg uwch. Bydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb dros gyllido darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion o fis Ebrill 2002. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn ymgynghori ar ei strategaeth gorfforaethol ddrafft am y deng mlynedd nesaf ac yn adolygu'r rhaglenni a etifeddwyd ganddo. Bydd ei Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad i gael eu cymeradwyo ym mis Ionawr 2002.

Mae dwyieithrwydd wedi cael ei ddynodi'n un o themâu cyffredinol croestoriadol y Cyngor Cenedlaethol yn ei strategaeth gorfforaethol ddrafft. Mae'r strategaeth ddrafft yn cydnabod yr angen i gynyddu galw a gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu dwyieithog ôl-16 ac i ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddeall y patrymau galw yn well a cheisio cydbwysedd cynaliadwy rhwng galw a chyflenwad.

Mae'r Cyngor Addysg Uwch yn gyfrifol am gyllido sefydliadau addysg uwch Cymru, gan gynnwys addysgu, ymchwil a gwaith allanol 'trydedd genhadaeth', a darpariaeth addysg uwch mewn colegau addysg bellach. Mae'r Cyngor Addysg Uwch wedi cyflwyno tystiolaeth i'r adolygiad o addysg uwch yng Nghymru sy'n cael ei gynnal gan Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol, a gynhwysodd drafodaeth ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rhoddwyd tystiolaeth ar y pwnc hefyd gan unigolion a chyrff eraill. Felly mae'n bosibl y bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys argymhellion sy'n berthnasol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor Addysg Uwch wedi gwneud adolygiad sylfaenol o'i bolisïau mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch, gan arwain at gyflwyno polisïau newydd yn 2000/01. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar annog sefydliadau i gynllunio eu darpariaeth cyfrwng

Cymraeg mewn ffordd strategol ac ar ddatblygu cydweithio a rhwydweithio yn y sector, yn ogystal â darparu cyllid sylweddol i gefnogi'r nodau hyn. Er y bydd yn cymryd peth amser i'r datblygiadau newydd hyn arwain at gynnydd mewn cofrestriadau cyfrwng Cymraeg, bu'r cynnydd hyd yn hyn yn galonogol.

Mae'r ddau Gyngor wedi nodi dwyieithrwydd, a dysgu iaith yn fwy cyffredinol, yn faes lle gallant weithio gyda'i gilydd, yn nhermau dilyniant, adnoddau a thechnoleg.

Mae'r Cynghorau hefyd yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd, yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Rhagwelir y bydd y Cyngor Addysg Uwch a'r Cyngor Cenedlaethol yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r adolygiad o'r iaith Gymraeg a gynhelir cyn bo hir gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Gellir disgwyl i'r adolygiad hwn hefyd gael effaith ar ddatblygiad polisïau ELWa yn y maes hwn.

**CEFNDIR**

Mae gan y Cyngor Addysg Uwch a'r Cyngor Cenedlaethol (yn rhinwedd yr hyn a etifeddwyd gan CCABC) bolisïau i gefnogi ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach. (Gweler Atodiad 1.)

Fel rhan o'r broses ymgynghori ar strategaeth gorfforaethol ddrafft y Cyngor Cenedlaethol, galwyd Grŵp Ffocws Dysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ar 7/8 Tachwedd 2001 i drafod gweithgareddau yn y gorffennol a'r presennol ac i gynhyrchu syniadau ar gyfer datblygiadau pellach. Gellir crynhoi asesiad y Grŵp Ffocws o'r sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn: mae ysgolion yn gwneud cynnydd, mewn addysg bellach dim ond cyfran fach o asesiadau a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg (rhoddir y ffigurau yn Atodiad A), ac mewn hyfforddiant yn-y-gwaith nid oes fawr ddim darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ffurfiol. Dyma'r etifeddiaeth y bydd y Cyngor Cenedlaethol yn adeiladu arni.

Mae gweddill y papur hwn wedi'i seilio ar waith y Grŵp Ffocws a fu'n ystyried gwaith y Cyngor Cenedlaethol yn y maes hwn yn bennaf ond a roddodd sylw hefyd i faterion perthnasol mewn addysg uwch, gan wneud argymhellion at y dyfodol. Rhagwelir, os bydd y Cyngor Cenedlaethol yn eu cymeradwyo, y caiff rhai o'r newidiadau i bolisi eu gweithredu drwy'r system gyllido genedlaethol newydd a ddaw i rym yn 2003. Yn y cyfamser, bwriad y Cyngor Cenedlaethol yw gweithredu projectau peilot i ddarganfod sut y gall wneud defnydd mwy effeithiol o gyllid i sicrhau cyfleoedd dysgu gwell. Caiff dysgu dwyieithog a dysgu cyfrwng Cymraeg eu hystyried yn ystod y cyfnod hwn.

**Y GRWP FFOCWS**

Cafodd y grŵp ffocws, y gwahoddwyd 22 cynrychiolydd i fod yn rhan ohono (gweler Atodiad 2), ynghyd â staff ELWa, ei gadeirio gan y Dr Haydn Edwards, Prifathro, Coleg Menai ac aelod o'r Cyngor Cenedlaethol, a'r hwylusydd oedd yr Athro Colin H. Williams o Brifysgol Caerdydd.[3]

[3] Ym marn yr awdur roedd corff cynrychioliadol a dylanwadol wedi ymgynnull i gyfrannu at strategaeth ELWa. Serch hynny, roedd cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r Undebau Llafur yn absenoldeb amlwg, ac, wrth gwrs, cynrychiolwyr gwleidyddol a etholwyd yn uniongyrchol.

Nod y strategaeth sy'n cael ei datblygu gan y Cyngor Cenedlaethol - ELWa yw "cynyddu nifer y bobl sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg ac yna'n mynd ymlaen i'w defnyddio'n gyfrwng ar gyfer gweithgareddau dysgu neu weithgareddau yn y gweithle" (CC - ELWa, 2001b).

Nodwyd pum elfen allweddol o'r strategaeth i weddnewid y galw am ddysgu cyfrwng Cymraeg cyn i'r grŵp ffocws ddechrau ar ei waith, sef:

- Unigolion a chymunedau
- Y gweithle
- Y rheiny sy'n symud ymlaen o Gymraeg i Oedolion ac o ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Y rheiny sy'n dymuno dilyn cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Maes cyffredinol dysgu gydol oes.

**Nodau ac Amcanion y Grŵp Ffocws**

1. Deall galw cyfredol a galw potensial a'r rhagolygon ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg.
2. Datblygu strategaethau i alluogi'r Cyngor Cenedlaethol i gynyddu galw ar bob lefel o addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, a datblygu strategaethau i helpu cwrdd â'r galw hwn.
3. Ystyried beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac ar gyfer buddsoddi cyhoeddus.
4. Trafod rôl y Cyngor Cenedlaethol - ELWa a rôl ei bartneriaid.
5. Nodi goblygiadau 'dwyieithrwydd' ar gyfer dysgu ac addysgu.
6. Ystyried sut y gall dwyieithrwydd gael ei ymgorffori fel thema gyffredinol groestoriadol ar draws gweithgareddau'r Cyngor Cenedlaethol.

**Strwythur y gweithgareddau a'r cyflwyniadau**

Mabwysiadwyd patrwm safonol ar gyfer y ddau ddiwrnod, sef yn gyntaf gosod y materion allweddol i roi sylw iddynt, wedi'i ddilyn gan gyfres o gyflwyniadau a thrafodaeth agored, ac yna rhannu'r cynrychiolwyr yn grwpiau trafod bach, a adroddodd yn ôl i sesiynau llawn. Drwy gydol y gweithgareddau bu'r cadeirydd a'r hwylusydd yn annog trafodaeth lawn a gonest o'r sialensiau, cyfleoedd a diffygion o fewn y drefn bresennol fel yr oedd y cynrychiolwyr yn eu gweld hwy. Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r cyfraniadau allweddol a wnaed gan y cynrychiolwyr, gan gynnwys barn a safbwyntiau'r hwylusydd a lywiodd rai o'r trafodaethau at faterion y credai y dylai'r Cyngor Cenedlaethol roi'r sylw pennaf iddynt yn ei adolygiad strategol presennol.

**<u>Y Diwrnod Cyntaf: Materion Galw</u>**
**Sesiwn 1**

Wrth agor y sesiwn pwysleisiodd y cadeirydd a'r hwylusydd mai cyfle unigryw oedd hwn i gynrychiolwyr gael dylanwad uniongyrchol ar syniadaeth a datblygiadau polisi y Cyngor Cenedlaethol. Neilltuwyd y diwrnod cyntaf i faterion galw a gwnaed tri chyflwyniad yn y sesiwn gyntaf.

Crynhodd Hywel Evans, Menter a Busnes, yr anawsterau rhesymegol sy'n dilyn os caiff anghenion yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd eu hystyried mewn gwactod. Felly roedd mawr angen sicrhau bod yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn lliwio holl weithgareddau'r Cyngor Cenedlaethol ac yn ysgogi datblygu gweithgareddau arloesol newydd. Yr her i'r Cyngor yw plannu a gwreiddio materion Cymraeg a dwyieithog ym mhob agwedd ar ei waith drwy sicrhau bod yr elfen hon yn ystyriaeth angenrheidiol ym mhob sefyllfa - i'w chyflwyno yn y ffyrdd mwyaf priodol. Hefyd mae profiad mewn rhannau eraill o'r agenda datblygiad economaidd yn tanlinellu'r angen am gyfrwng penodol i helpu datblygu technegau newydd at ddefnydd darparwyr prif ffrwd. Gallai cyfrwng o'r fath, tra'n cael ei integreiddio â gweddill y sector, hefyd fod yn gatalydd ar gyfer troi syniadau radicalaidd yn realiti. Fel sawl cynrychiolydd arall, ymgodymai Hywel Evans â'r cwestiwn o sut i asesu galw. Eglurodd yr anawsterau methodolegol sy'n gysylltiedig â mesur galw drwy gyfeirio at sawl astudiaeth. Er enghraifft, cafodd medrau yn yr iaith Gymraeg eu rhoi'n agos at waelod y rhestr o flaenoriaethau yn adolygiad gwreiddiol Sgiliau Dyfodol Cymru o'r sgiliau tebygol y byddai eu hangen ar gyflogwyr, a sgiliau cyfathrebu ar ben y rhestr. Ar y llaw arall, rhoddodd astudiaeth gan Fenter a Busnes (Gorwelion) ddarlun hollol wahanol.[4] Pam y gwahaniaeth syfrdanol? Dibynnai'r ymchwiliad cyntaf ar holiadur papur/post lle'r oedd eitemau'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u gwahanu oddi wrth faterion Cyfathrebu. Mabwysiadodd yr ail ddull cyd-destunol, gan drafod wyneb yn wyneb â chyflogwyr eu hanghenion at y dyfodol. Dangosodd ymchwil Menter a Busnes (wedi'i seilio ar 734 o gyweliadau wyneb yn wyneb â chyflogwyr) yr hoffai 65% gael staff â medrau dwyieithog (44% mewn gweithgynhyrchu, 75% mewn gwasanaethau, 66% mewn adwerthu, a 66% mewn twristiaeth). Wrth gloi'r cyflwyniad, rhoddwyd rhybudd bod angen trin ystyriaethau polisi a oedd yn seiliedig ar 'alw' yn ofalus ac y dylid ymchwilio ymhellach i'r berthynas ehangach rhwng yr iaith a'r economi.

Yn yr ail gyflwyniad, gan Dafydd Iwan o Gwmni Sain sydd hefyd yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa, cafwyd safbwynt cyflogwr. Croesawodd gyfraniad pobl fusnes ac entrepreneuriaid o fewn yr hen Gynghorau Hyfforddi a Menter ond ychwanegodd fod creu'r Cyngor Cenedlaethol o bwys aruthrol ac na ddylid colli'r cyfle hwn i hybu'r fantais sy'n deillio o sgiliau dwyieithog. Roedd saith pwnc yn haeddu sylw, sef: 1) normaleiddio'r Gymraeg yn y nifer mwyaf posibl o sefydliadau a chyd-destunau; 2) cynnal sefydlogrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar lefel yr ysgol gynradd; 3) gwella'r amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau addysgu; 4) sicrhau bod gan asiantaethau asesu drefniadau mesur a gwerthuso priodol; 5) darparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a chyrsiau gloywi i godi lefelau o hyder; 6) rhoi sylw i derminoleg, yn enwedig mewn perthynas â'r diwydiannau crefft, gweithgynhyrchu a busnesau arbenigol; 7) dylanwadu ar agweddau cyffredinol fel bod pobl yn deall manteision meithrin dysgu dwyieithog.

Yr elfen allweddol mewn unrhyw strategaeth yw normaleiddio dwyieithrwydd yn y gweithle, fel nad ystyrir bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg a'r Saesneg yn broblem, yn enwedig yng nghyd-destun cymunedau dwyieithog wedi'u hen sefydlu.

[4] Bu peth o brofiad Menter a Busnes yn ddefnyddiol eisoes mewn sefyllfaoedd di-Gymraeg neu ddwyieithog. Mae ***Cwysi*** (y rhaglen i deuluoedd amaethyddol) yn cael ei defnyddio'n fwy cyffredinol mewn ardaloedd gwledig bellach. Mae Cyfeiriaduron Gwaith y rhaglen ***Gorwelion*** (gorwelion gyrfa) wedi cael eu mabwysiadu gan sawl Cwmni Gyrfa fel arf cyffredinol defnyddiol. Bu'r strategaeth ar gyfer datblygu entrepreneuriath yn ddefnyddiol wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Menter Cymru. Am wybodaeth bellach gweler www.menterabusnes.com

Mae pob cymuned yng Nghymru yn ddwyieithog. Yn y mwyafrif mawr ohonynt, Saesneg yw prif iaith cyfathrebu, ond mewn nifer sylweddol o gymunedau y Gymraeg yw'r iaith gyntaf. O ystyried yr amrywiaeth eang o gyd-destunau lle defnyddir y Gymraeg mewn llawer rhan o'r genedl, mae'n hollbwysig i'r Cyngor Cenedlaethol normaleiddio ei ddisgwyliadau ei hun ynghylch sut i hybu'r Gymraeg a'r Saesneg drwy'r gyfundrefn addysg. Ni fydd dibynnu'n ormodol ar hyfforddiant galw-seiliedig amheus yn dod â'r buddsoddiad sydd ei angen yn y gyfundrefn. Mae angen i'r Cyngor gymryd yr awenau drwy ymrwymo i'r lefel angenrheidiol o wariant ar adnoddau fel y gellir cwrdd â gwir anghenion gweithlu dwyieithog. Nid yw llawer o gwmnïau yn mabwysiadu polisi iaith hunanymwybodol ar sail galw a ragwelir neu a ragamcenir - maent yn gweithredu'n naturiol mewn ffordd ddwyieithog. Rhoddwyd tystiolaeth o amrywiaeth eang o gyd-destunau o'r fath. O ganlyniad, mae gan y Cyngor gyfle euraid, drwy ei strategaeth, i siapio a dylanwadu ar sylfaen sgiliau economaidd ac ieithyddol ein cymdeithas. Ond dylid gwneud hyn o argyhoeddiad, nid drwy fformiwla galw-seiliedig na fydd byth yn cwrdd â gwir ofynion yr economi o ystyried mor hollbresennol yw'r Saesneg. Mae hefyd yn hollbwysig i ni fanteisio ar y cyfle i greu trefn resymegol allan o'r anhrefn a etifeddwyd, sy'n nodweddiadol o ddarpariaeth ddwyieithog o fewn y rhan hon o'r gyfundrefn addysg.

Ymdriniodd y trydydd cyflwyniad, gan Kathryn Jones o Gwmni Iaith, â phum pwnc, sef 1) y Gymraeg fel iaith busnes ac iaith ar gyfer busnes; 2) galw cyflogwyr am sgiliau dwyieithog; 3) darpariaeth bresennol y Cyngor Cenedlaethol; 4) goblygiadau'r ddarpariaeth hon yn nhermau hyfforddiant; 5) canlyniadau ymchwil ddiweddar i rôl y Gymraeg yn y gweithle wedi'i seilio ar sampl o 126 busnes yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

Daethpwyd i'r casgliad cyffredinol bod cyflogwyr ar hyn o bryd yn defnyddio sgiliau dwyieithog llafar eu gweithwyr yn hytrach na'u sgiliau ysgrifenedig. Wynebai cyflogwyr anawsterau gwirioneddol wrth geisio hyfforddi staff dwyieithog arbenigol eu hunain a hoffent weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar sgiliau cyfathrebu dwyieithog yn y cwricwlwm cenedlaethol. Yr oedd cryn dipyn o botensial ar gyfer cynyddu'r lefelau presennol o alw am weithwyr dwyieithog. Yr oedd teimlad cryf y dylai hyfforddiant ôl-16 gynnwys mwy o sgiliau cyfathrebu dwyieithog. Yr oedd mawr angen i'r mwyafrif o gwmnïau ymgymryd â datblygiad staff mewnol. Roedd pedwar goblygiad ar gyfer strategaeth y Cyngor Cenedlaethol: 1) mwy o hyfforddiant mewn sgiliau iaith; 2) yr angen i greu cronfeydd data; 3) creu elfen entrepreneuraidd o fewn hyfforddiant y Cyngor Cenedlaethol; 4) yr angen i'r Cyngor ddatblygu ar fyrder ei bolisi iaith a'i gynllun iaith ei hun.

O safbwynt hyfforddiant dwyieithog, nodwyd nad oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi diffinio'r hyn a olygai hyfforddiant dwyieithog yn nhermau gweithredu cyrsiau neu ddarparu adnoddau ar eu cyfer. Nid oedd ganddo chwaith ddarlun manwl o anghenion cyffredinol y sector; gan fod y Cyngor Cenedlaethol yn dibynnu ar hyn o bryd ar ddulliau annigonol o gasglu data, roedd perygl y byddai'n camddarllen y potensial ar gyfer meithrin sgiliau dwyieithog mewn meysydd cyflogaeth penodol. Cymhlethir yr anawster hwn gan nifer o wendidau strwythurol yn y ddarpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg gyfredol. Er enghraifft, ceir:

- Prinder cyllid penodol i ddatblygu cyrsiau arloesol newydd.

- Prinder adnoddau yn gyffredinol ac, yn benodol, amharodrwydd ar ran y Cyngor Cenedlaethol i ddarparu rhagor o gyllid ar gyfer y rhan hon o'r ddarparaeth.
- Prinder hyfforddwyr ac aseswyr sy'n rhugl yn y Gymraeg.
- Cred mewn sawl sector nad oes llawer o alw am hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Ysgogodd hyn drafodaeth fywiog. Pwysleisiodd y rheiny a gymerodd ran y pwyntiau canlynol:

- Mae angen cywiro'r diffyg ymrwymiad hanesyddol a'r diffyg buddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau dwyieithog.
- Mae angen data manwl, blynyddol, cyfres-amser ar bob agwedd ar ymwneud y Cyngor Cenedlaethol â'r sector.
- Mae angen i'r Cyngor fod yn fwy agored i bosibiliadau ei rôl allweddol mewn datblygu polisïau hyfforddiant dwyieithog. Mae angen rhoi sylw i ddatblygiad staff ac ymwybyddiaeth iaith yn fewnol ac i bolisi iaith allanol.
- Tra'n cydnabod perthnasedd galw fel ffactor, ni ddylid mabwysiadu strategaeth sydd wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ystyriaethau galw. Mae safle strategol y Cyngor Cenedlaethol yn golygu y gall ddylanwadu ar sylfaen economaidd cymdeithas drwy arwain o'r tu blaen a chreu gweithlu dwyieithog mwy hyblyg.
- Mae perygl, os nad yw'r Cyngor ei hun wedi'i argyhoeddi o werth hyfforddiant dwyieithog, y bydd yn colli sawl cyfle i ymgorffori dwyieithrwydd fel elfen brif ffrwd o fewn ei ystyriaethau polisi a chynllunio.
- O ganlyniad, holodd sawl cyfrannwr am ymrwymiad y staff a etifeddwyd gan y Cyngor Cenedlaethol ac i ba raddau yr oeddynt yn gallu gweithredu'r polisïau arloesol angenrheidiol a oedd yn deillio ar hyn o bryd o'r grŵp ffocws ac o drafodaethau eraill o fewn y proffesiwn. Awgrymodd sawl un fod angen i'r Cyngor ddefnyddio staff ymroddedig a oedd wedi ymrwymo i wireddu ei uchelgais o greu gweithlu medrus a all fanteisio ar y nifer cynyddol o gyfleoedd dwyieithog mewn cymdeithas.
- Mae angen rhoi ystyriaeth i flaengynllunio tymor canolig a thymor hir. Ar hyn o bryd mae cyfleoedd i fanteisio ar y galw tybiedig am arbenigwyr dwyieithog yn y rhan fwyaf o feysydd economaidd yn mynd yn brinnach.
- Mae angen i swyddogion gyrfaoedd gael mwy o gyngor a hyfforddiant ar sut i annog pobl ifanc i fanteisio ar eu sgiliau dwyieithog pan ânt i mewn i'r farchnad waith.
- Byddai angen i'r Cyngor fabwysiadu safbwynt cadarn wrth geisio cyllid digonol i weithredu ei strategaeth ddatblygol.
- Roedd holl bwyllgorau rhanbarthol y Cyngor Cenedlaethol wedi ymrwymo i ymgyrch egnïol ac effeithiol i ddylanwadu ar y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau a'u darbwyllo bod angen cyllid digonol ac arweiniad grymus.

**Sesiwn 2**

Amlinellodd Meirion Prys Jones, Pennaeth Addysg y Tîm Cynllunio Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rôl strategol statudol y Bwrdd mewn perthynas ag addysg ddwyieithog. Croesawodd yr ymrwymiad cadarnhaol yr oedd y Cyngor Cenedlaethol, y Cyngor Addysg Uwch a'u partneriaid yn ei ddangos, ond rhoddodd rybudd ynghylch anawsterau cyrraedd y nod yr oeddynt wedi'i osod. Atgoffodd y gynulleidfa y byddai pob awdurdod lleol erbyn mis Mawrth 2002 yn darparu peth addysg ddwyieithog, ac eto ar ôl 16 mlynedd o weithgarwch roedd llawer o'r nodau gwreiddiol a osodwyd ar gyfer y sector addysg ddwyieithog heb eu cyrraedd.

Ers 1993 bu ymdrechion y Cyngor Cyllido Addysg Bellach a’r Cynghorau Hyfforddi a Mentor i ddarparu hyfforddiant sgiliau dwyieithog yn fethiant i raddau helaeth. O’r herwydd nid oedd dim o werth mawr y gallai’r Cyngor Cenedlaethol adeiladu arno. Roedd ymchwil annibynnol allanol a wnaed gan Brifysgol Cymru, Bangor, ynghyd ag adroddiad diweddar gan Estyn, wedi dangos mai strwythur darniog ac yn anad dim diffyg arweinyddiaeth a rheolaeth ganolog oedd yn gyfrifol am ddiffyg twf cyson yn y sector, sy’n cael ei adolygu gan y grŵp ffocws. Roedd hyn yn destun pryder mawr gan fod yr holl arwyddion cynnar yn awgrymu bod y Cyngor Cenedlaethol yn dilyn yr un llwybr. Roedd yr adolygiad cyfredol o strategaeth y
Cyngor Cenedlaethol yn arwydd calonogol o ymagwedd fwy radicalaidd ac arloesol, ond byddai’n rhaid i’r strategaeth gael ei rhoi ar waith gan ysgrifenyddiaeth a thîm gweithredu polisi ymroddedig.

Nid oedd syniadaeth gyfoes am y materion hyn yn gyflawn, ac roedd yr uniongrededd presennol a welir yn y ddogfennaeth, megis hynny a geir yn ‘Sgiliau Dyfodol Cymru’, yn annigonol. Mae ffordd y Cyngor Cenedlaethol o ddatblygu darpariaeth, wedi’i seilio ar gyflenwad sy’n dilyn galw, yn debygol o achosi problem sylfaenol gan fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn ôl fformiwla. Oherwydd y blaengynllunio annigonol ni cheir unrhyw wir effaith ar y system. Mae angen i wariant achlysurol, megis y cyllid a dderbynnir gan Goleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor, gael ei wreiddio o fewn y system fel ymrwymiad parhaol fel y gellir gweithredu’r fformiwlâu a ddyfeisir dros gyfnod hir. Gofynnodd pwy fydd yn hyfforddi’r darparwyr? Pwy fydd yn paratoi’r adnoddau addysgu mewn ffordd gydlynol a chydgysylltiedig? Mae diffyg cynllunio strategol o’r brig i lawr ac o fuddsoddi. Er enghraifft, ym 1993, o dan ddarpariaethau Adran 21 o Ddeddf 1980, dyrannwyd £100,000 i gwrdd ag anghenion Addysg Bellach yn y sector hwn. £100,000 yw’r dyraniad eleni hefyd. Ni fu unrhyw ymrwymiad i gynyddu buddsoddiad, heb sôn am wariant, yn y maes hwn.

Yn yr un modd, mae’r sector Cymraeg i Oedolion yn ddarniog gydag wyth consortiwm a dim cynllunio na chydlynu canolog. Cymharwyd sefyllfa Cymru â honno yng Ngwlad y Basg, lle’r oedd y buddsoddiad cryn dipyn yn uwch er bod y niferoedd a dderbyniai hyfforddiant iaith galwedigaethol oddeutu’r un fath.

Roedd diffyg o’r fath yng Nghymru yn awgrymu nad oeddem wedi ymrwymo i gyrraedd y nod arfaethedig o ddatblygu gweithlu dwyieithog.

Un datblygiad arloesol hanfodol fyddai sefydlu Canolfan Adnoddau ar gyfer Dysgu Cymraeg i Oedolion. Gallai’r arbenigwyr a oedd wedi ymgynnull yma anfon neges rymus allan drwy alw am sefydlu Canolfan Adnoddau o’r fath. Yn yr un modd, byddai sefydlu Canolfan Addysg Ôl-16 yn chwyldroi’r sefyllfa. Ei chylch gwaith fyddai datblygu polisi, ystyried dulliau hyfforddi, paratoi deunyddiau ac adnoddau, ac ymgymryd ag ymgyrch i farchnata Cymraeg yn y gweithle. Nodau ymarferol, cyraeddadwy yw’r rhain oll sy’n cwrdd ag anghenion go iawn. Gallai canolfannau o’r fath alw ar wasanaeth ymarferwyr profiadol a byddent yn bwerdy ym maes addysg ddwyieithog, gyda’r gallu i hybu buddiannau gweithlu dwyieithog mewn ffordd sylfaenol.

Canolbwyntiodd yr ail gyflwyniad, gan Clifford Davies o Gyngor Sir Powys, ar y Gymraeg mewn cyd-destun rhyngwladol, cymharol. Yn ei orolwg o’r bylchau yn y

gyfundrefn addysg a hyfforddiant nododd chwe ffactor: 1) dim cynlluniau creiddiol i godi ymwybyddiaeth o'r patrwm ieithyddol a chyfleoedd ar bob lefel - lleol, Cymru, rhanbarth Ewropeaidd; 2) roedd gorbwyslais ar bynciau yn lladd cyrsiau creiddiol ac yn galluogi rhai pobl i wthio'r Gymraeg i gornel; 3) prinder cyrsiau creiddiol ar fethodoleg a sgiliau, i baratoi pobl ar gyfer y gweithle a chymdeithas ddwyieithog ac amlieithog; 4) nid oes archwiliad ieithyddol rheolaidd o broffil ieithyddol sefydliadau neu gymunedau - y cyfan sydd gennym yw'r gwahanol brosesau ar gyfer casglu ystadegau ar niferoedd a safonau yn y Gymraeg fel pwnc academaidd; 5) dechreuwyd y broses o fonitro parhad mewn perthynas ag astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ond nid oes unrhyw astudiaeth o bwys o'r symudiad o lefel ail iaith i lefel iaith gyntaf; 6) mae'r cysylltiadau rhwng sefydliadau unigol a sefydliadau mewn rhanbarthau Ewropeaidd eraill yn dilyn y patrwm Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg heb unrhyw astudiaeth o ddwyieithrwydd lleiafrifol-mwyafrifol yn y gweithle a'r gymuned. Cyfeiriwyd eto at brofiad Gwlad y Basg, o ran efelychu eu gwerthusiad manwl iawn o ddefnydd iaith gan blant yn yr ysgol a'r cartref.

Gan droi at anghenion, pwysleisiodd y siaradwr fod angen buddsoddi mewn fframwaith eglur o gyrsiau creiddiol i fyfyrwyr, profiad gwaith, a chyfnewid syniadau rhwng rhanbarthau Ewropeaidd er mwyn cyrraedd targedau iaith a menter. Ni ddylid darparu unrhyw gyllid heb gael targedau clir a phendant.

Tynnwyd sylw at chwe agwedd ar arfer awdurdodau lleol a haeddai sylw arbennig a buddsoddiad ychwanegol.

1. Cwrs creiddiol ar ymwybyddiaeth iaith a menter - 7, 11, 14-16, 6ed Dosbarth ac AB - i bawb.
2. Cynllun Datblygu Dysgu ym mhob dalgylch uwchradd yng Nghymru gydag archwiliadau ieithyddol rheolaidd i fesur lefelau cymhwysedd y plant.
3. Dylai profiad gwaith pob myfyriwr gynnwys elfennau o hyfforddiant mewn sgiliau iaith ac ystyriaeth o'r tyndra sy'n codi o weithio mewn sefyllfa ddwyieithog lle ceir iaith leiafrifol ac iaith fwyafrifol.
4. Dylid cyflwyno mwy o bersbectifau rhyngwladol, cymharol i arferion gwaith dwyieithog y sir. Er enghraifft, fframwaith blynyddol ar gyfer ieithoedd lleiafrifol - gellid llunio cysylltiadau rhanbarthol drwy gyfrwng cyrff megis CAER (Cymdeithas Addysg Rhanbarthau Ewrop) a gellid sicrhau mwy o gyfnewid syniadau a myfyrwyr ym maes menter economaidd.
5. Dylai cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant sgiliau dwyieithog fod ar gael i'r canlynol: a) penaethiaid/rheolwyr; b) hyfforddwyr; c) ymgynghorwyr; ch) gweinyddwyr; d) staff ategol; dd) rhieni.

Y prif bwyntiau a godwyd yn y drafodaeth ddilynol oedd:

- Y dylai unrhyw Ganolfan Adnoddau arfaethedig ddwyn ynghyd neu fod yn gyson â datblygiadau cyfredol o fewn y sector addysg uwch.
- Y dylai'r Cyngor Cenedlaethol fynd i'r afael â gwendid strwythurol difrifol, sef bod oddeutu 80% o'i adnoddau wedi'u hymrwymo i'r sector addysgol statudol tra bo 80% o'i ddiffygion a'i broblemau yn ymwneud â hyfforddiant ar gyfer y gweithle.
- Wrth ddarllen y dogfennau 'Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft y Cyngor Cenedlaethol - ELWa' (CC - ELWa, 2001) a 'Gwlad Dysg/The Learning Country' (CCC, 2001) ceir yr argraff nad yw'r Cyngor Cenedlaethol na'r Cynulliad

Cenedlaethol yn gwybod llawer am flaenoriaethau ei gilydd. Er enghraifft, tra bo 'Gwlad Dysg' yn cyfeirio at faterion megis addysg gydol oes, ystyriaethau gofal plant, hyfforddiant dwyieithog/cyfrwng Cymraeg penodol a blaenoriaethau Cymraeg i Oedolion, nid yw dogfen y Cyngor Cenedlaethol yn cyfeirio at yr un o'r pynciau hyn. Pan geir cyfeiriad yn nogfen y Cyngor Cenedlaethol at ddwyieithrwydd (un datganiad penodol ar dudalen 38 y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i ymateb i'r galw cynyddol am ddwyieithrwydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat), ni chrybwyllir buddsoddi, blaenoriaethu na chynllunio. Nid yw'r ddogfen chwaith yn proffilio anghenion cymunedau Cymraeg, nac yn cynnig y Gymraeg fel sgil dymunol, naill ai o safbwynt addysg gyffredinol neu hyfforddiant yn y gweithle. Yn olaf, mae diffyg nodau, targedau a buddsoddiad pendant yn milwrio yn erbyn yr ymrwymiad a wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol (yn y dogfennau presennol) i wasanaethu anghenion pawb yng Nghymru. I gyflawni hyn bydd angen gosod targedau penodol ar gyfer monitro datblygiadau mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16, gan gynnwys Cymraeg i Oedolion, yn ogystal â chyfrannu at dargedau cyhoeddedig y Cynulliad ei hun ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r diffyg cyfatebiaeth hwn rhwng syniadaeth y Cynulliad a syniadaeth y Cyngor Cenedlaethol yn wendid polisi gwleidyddol difrifol, heb sôn am wendid polisi addysgol, a dylid mynd i'r afael ag ef yn yr adolygiad strategol sydd i'w gynnal.
- Mae'r sector Cymraeg i Oedolion wedi gweld twf sylweddol mewn rhai canolfannau. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion o fewn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd wedi gweld cynnydd o 92% yn nifer y myfyrwyr llwyddiannus yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Serch hynny, mae cryn anesmwythyd o hyd o fewn y sector yn genedlaethol oherwydd y ganran o fyfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i'w cyrsiau, anallu rhai canolfannau i ddarparu cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithle, yr adnoddau cyfrannol lai a dderbynnir i hybu darpariaeth 'Cymraeg i Oedolion' o'i chymharu â 'Saesneg i Oedolion', y ffaith nad yw'r strwythur gyrfa ar gyfer tiwtoriaid oedolion wedi'i phroffesiynoli digon, diffyg cyfeiriad a chynllunio canolog, y broblem o gynnal cwrs seiliedig ar alw yn y galwedigaethau a phroffesiynau mwy arbenigol.
- Diffyg parhad a dilyniant ar lefelau olynol ar gyfer pobl ddwyieithog yn y gyfundrefn addysg.
- Gwendid y trefniadau casglu data sy'n milwrio yn erbyn cynllunio manwl.
- Nid oes archwiliad o nodweddion ieithyddol sefydliadau mawr.
- Nid oes dosbarthiadau ategol i wella rhugledd neu feithrin cymhwysedd siaradwyr iaith gyntaf o fewn y sector awdurdod lleol.
- Nid oes mecanweithiau addysgu/hyfforddi penodol i alluogi siaradwyr ail-iaith i 'groesi'r bont' a dod yn siaradwyr iaith gyntaf.

**Adroddiad ar y grwpiau trafod**

Gosodwyd tri chlwstwr o gwestiynau i lywio'r drafodaeth.

1. *Beth yw nodweddion allweddol y galw presennol a chudd a'r rhagolygon ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog? Beth yw'r bylchau yn ein gwybodaeth? Beth yw ein camsyniadau/tybiaethau a'n mannau dall?*
2. *Gan gadw mewn cof yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, beth yw ein blaenoriaethau cymharol ar gyfer cynyddu ac ysgogi galw, er enghraifft, Cymraeg yn y Gweithle neu bwyslais diwylliannol ehangach?*

3. Pa strategaethau a pholisïau ymarferol sy'n angenrheidiol i ysgogi galw am ddysgu'r Gymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i gwrdd â disgwyliadau newydd wrth iddynt godi?

*Ceir crynodeb o'r tair trafodaeth grŵp isod, wedi'i drefnu'n themâu.*

- Y pryder cyntaf oedd bod y Cyngor Cenedlaethol, er ei fod bellach yn gofyn rhai o'r cwestiynau iawn, heb ddangos llawer o ddiddordeb o'r blaen mewn gosod materion dwyieithog ar ganol ei ddatganiadau cenhadaeth a'i strategaeth.
- Byddai seilio darpariaeth yn y dyfodol ar ddulliau cyfredol o fesur galw yn niweidiol - cyn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog rhaid cael yn gyntaf ddull llawer mwy sensitif a manwl gywir o ymchwilio i angen, darpariaeth, manteisio ar ddarpariaeth, a safon darpariaeth.
- Pe bai'r Cyngor Cenedlaethol yn ymrwymo i bwysleisio agweddau addysgol ac ieithyddol ar y Gymraeg yn unig, byddai'n colli'r cyfle i atgyfnerthu statws a gwerth ymarferol yr iaith mewn cymdeithas a'r economi.
- Rôl y Cyngor Cenedlaethol yw cyfarwyddo, llywio a dylanwadu ar bolisïau dwyieithog ei bartner asiantaethau a sefydliadau addysgol.
- Mae'n hanfodol i'r Cyngor Cenedlaethol baratoi cynlluniau manwl ar gyfer darparu a hybu hyfforddiant dwyieithog.
- Mae'n hanfodol i dargedau gael eu cysylltu â dangosyddion perfformiad ac â chyllid, er mwyn i'r system weithio'n effeithiol ar raddfa genedlaethol.
- Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibiliadau o ailhyfforddi neu hybu sgiliau dwyieithog yr hyfforddwyr presennol.
- Mae angen manylu fwy ar y math o ddata addysgol sydd eu hangen ac mae angen dadansoddiad hollgynhwysol ar frys o'r tueddiadau a amlygir gan y data presennol.
- Mae angen cynllunio strategol a systematig cyffredinol yn hytrach na'r cynllunio 'ymatebol' a darniog sy'n tra-arglwyddiaethu ar hyn o bryd.
- Roedd cydsyniad cyffredinol y dylid sefydlu Canolfan Adnoddau Genedlaethol. Ond roedd sawl barn wahanol ynghylch natur canolfan o'r fath a phwy a ddylai fod yn gyfrifol am ei hariannu a'i chyfeiriad polisi. (Gweler y drafodaeth isod, tt. 11 a 12.)
- Dylid sefydlu Canolfan/Adran Cynllunio Iaith fel menter partneriaeth rhwng y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith ac arbenigwyr ac ymarferwyr academaidd.
- Byddai'n fanteisiol iawn cael corff sefydlog o arbenigwyr, megis y rheiny sydd wedi ymgynnull yma ar gyfer y broses ymgynghori hon, i gynnal dialog parhaus ac i hysbysu a chynghori'r Cyngor Cenedlaethol yn y maes hwn.

**Sesiwn 3**
Gwnaed dau gyflwyniad arall yn y sesiwn gyda'r nos.

Croesawodd Anne Keane, o Estyn, y cyfle a gynigiwyd gan yr adolygiad strategol i gysoni gweledigaethau'r Cyngor Cenedlaethol a'r Cynulliad ar gyfer addysg yng Nghymru. Yr angen mawr oedd ymgymryd ag ymgyrch farchnata gynhwysfawr i "werthu" manteision bod yn ddwyieithog. Gwnaed tair apêl benodol mewn perthynas ag anghenion yn y dyfodol:

1. dylid llunio cronfa ddata ystadegol gynhwysfawr, y byddai ei gofynion yn cynnwys ffeil Cofnod Myfyriwr Unigolyddol 'arhydol', dewisiadau ar gyfer olrhain hynt myfyrwyr, a lefelau cyrhaeddiad mewn addysg.
2. dylid buddsoddi'n sylweddol yn y sector hyfforddi (darparwyr amryfal gyrsiau) ac yn y deunyddiau ac adnoddau addysgu angenrheidiol. Mae mawr angen sefydlu Canolfan Rithwir a byddai'n fuddiol i'r cyfranogwyr dalu sylw i'r gwersi i'w dysgu o Learn Direct fel model.
3. ystyried ystod o sgiliau iaith: er bod dwyieithrwydd yn fedr hanfodol i'w ddatblygu, mae'n fanteisiol hefyd fod yn hyddysg mewn Ieithoedd Modern eraill, a dylid pwysleisio hyn yn yr adolygiad o gynllunio strategol sydd ar y gweill.

Adroddodd Cefin Campbell, Mentrau Iaith Cymru, fod y canfyddiadau cyffredinol cychwynnol o'r Cyngor Cenedlaethol fel corff newydd yn negyddol ar y cyfan. Angen yn hytrach na galw oedd y ffordd orau o fesur y datblygiadau strategol cyfredol gan mai ychydig iawn o gysylltiad sydd mewn gwirionedd rhwng y ddarpariaeth bresennol a phrofiad yn y gweithle dwyieithog. Nid yw ein diffiniad o hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn ddigon manwl - onid ydym mewn gwirionedd yn siarad am ddatblygu medrau dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg? Os ydym, yna mae mawr angen symud i ffwrdd o'r gor-bwyslais ar oedolion sy'n dysgu Cymraeg, er mor bwysig yw hyn, a chanolbwyntio hefyd ar wella sgiliau cyfathrebu siaradwyr Cymraeg brodorol, nad yw llawer ohonynt yn ddigon hyderus i ddefnyddio eu hiaith mewn cyd-destunau newydd. Syniad gwych yw cynnal cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i reolwyr di-Gymraeg, oherwydd nad ydynt yn deall yn aml oblygiadau eu gweithredoedd yn nhermau cymdeithasol-ieithyddol. Byddai sefydlu Canolfan Adnoddau Genedlaethol, fel yr awgrymwyd gan Williams ac Evas ym 1977,[5] yn gam mawr ymlaen. Yn ogystal â chynnwys enghreifftiau o arfer da, byddai hefyd yn darparu dadleuon a data i argyhoeddi amheuwyr o fewn y system o werth meithrin cymhwysedd dwyieithog. Pe bai modd cysylltu grŵp o ymarferwyr profiadol â Chanolfan Adnoddau o'r fath, byddai'n cryfhau'n sylweddol ei gallu i ddylanwadu ar werthoedd cymdeithasol, ac yn enwedig ar rôl hyfforddwyr. Os na roddir ystyriaeth ddifrifol i argymhellion y Grŵp Ffocws hwn, mae perygl mawr y caiff y Cyngor Cenedlaethol ei ystyried yn gorff sy'n adweithio yn hytrach na chorff sy'n arloesi. Mae angen i ni ragweld beth fydd ein gofynion am y 10-15 mlynedd nesaf a chynllunio ar sail hyn. Os gallwn gyflawni hyn, bydd wedi bod yn fenter gadarnhaol iawn ar ran y Cyngor Cenedlaethol i alw ynghyd y corff profiadol hwn o ymarferwyr.

## <u>Yr Ail Ddiwrnod: Materion Cyflenwad</u>
### Sesiwn 1

Cyflwynodd Arwel George, Pennaeth Ysgol Penweddig, sydd hefyd yn cynrychioli CYDAG, dystiolaeth ystadegol yn ymwneud â thwf a gweithgareddau ysgolion cyfrwng Cymraeg. Y nodweddion perthnasol oedd: mae gan 37 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg chweched dosbarth (mae cyfanswm o 167 ysgol uwchradd); yn y flwyddyn 2000, cafodd ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg eu cofrestru mewn 27 (allan o 33) pwnc Safon Uwch a gynigir gan CBAC; mae Mathemateg a Gwyddoniaeth yn cael eu haddysgu fwyfwy naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog; mae

[5] Colin H. Williams a J C Evas, (1997) The Community Research Project, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd.

ysgolion yn parhau i adolygu eu polisi ar y cyfrwng addysgu ac mae'r Gymraeg yn ennill tir fel cyfrwng; o ystyried bod deng mlynedd wedi mynd heibio ers i Gymraeg gael ei haddysgu fel pwnc i bob plentyn yng Nghymru, y cwestiwn allweddol yn awr yw pa ddarpariaeth benodol a wneir gan bob ysgol i adeiladu ar y sylfaen ddwyieithog hon? Mae gwir berygl y bydd yr hyn a enillir ym mlynyddoedd cyntaf addysg ffurfiol yn cael ei golli yn y blynyddoedd diweddarach oherwydd diffyg parhad, os na cheir arweinyddiaeth gref. Problemau ychwanegol yw'r ffaith nad yw digon o athrawon ifanc yn dod i mewn i'r proffesiwn a bod canran uchel o athrawon dros 50 oed. Byddai datblygu dwyieithrwydd ym mhob sector addysg yn atgyfnerthu ein hunaniaeth a hefyd yn creu cymunedau mwy ieithyddol gydlynol.

Yn yr ail gyflwyniad, gofynodd Merfyn Morgan, ACCAC, gyfres o gwestiynau allweddol, yr oedd yr atebion iddynt yn dangos mor ddarniog oedd sylfeini strwythurol y CGCau (NVQs) a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg. Ei dasg gyntaf oedd diffinio'r term gweithredol 'darpariaeth cyfrwng Cymraeg', gan fod y term ar hyn o bryd yn cwmpasu'r cyrsiau hynny a ddilynir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â chyrsiau lle defnyddir peth Cymraeg yn unig. Ychydig o ymgeiswyr sy'n gwneud eu CGCau yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg; fel rheol mae peth o'r dystiolaeth yn y portffolio a pheth o'r gwaith llafar yn y Gymraeg, a'r rhan fwyaf o'r gwaith ysgrifenedig yn y Saesneg.

Yn yr un modd, holodd pa mor gadarn oedd ein gwerthusiadau a'n mecanweithiau ar gyfer mesur cymhwysedd cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar y lefelau uwch, gan fod nifer yr ymgeiswyr mor fach. Roedd un mater trefniadaethol sylfaenol yn ymwneud â darparu a gwerthuso cyrsiau.

- Pa CGCau a faint ohonynt a oedd yn cael eu cynnig ar hyn o bryd? Yr ateb bras oedd dros 800, er bod 3000 o gymwysterau posibl yn ymwneud â hyfforddiant gweithle.
- Pwy oedd y prif gyrff dyfarnu a faint ohonynt oedd? Unwaith eto, ni ellid rhoi dadansoddiad cynhwysfawr gan nad oedd digon o ddata manwl gywir, ond roedd yn sicr bod o leiaf 168 corff dyfarnu.
- Pwy sy'n darparu'r hyfforddiant ac asesu? Mae cymysgedd o golegau, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a 19 ysgol uwchradd yn darparu'r hyfforddiant ar hyn o bryd.

O ystyried y darnio hwn, beth yw'r materion allweddol y dylid mynd i'r afael â hwy? Awgrymodd y siaradwr dri:
1. cynnig a hysbysebu darpariaeth cyfrwng Cymraeg
2. ymateb i alw;
3. meysydd blaenoriaethol.

Nid oedd yn glir a oedd y materion hyn yn cael sylw ai peidio ar hyn o bryd.

Roedd materion staffio yn peri cryn bryder hefyd. Pa gymwysterau a ddylai fod gan hyfforddwyr? Roedd neges glir i'r Cyrff Dyfarnu bod angen targedau mwy priodol ar gyfer cymwysterau. Beth oedd y berthynas rhwng darparwyr a'r Cyrff Dyfarnu? Beth oedd y berthynas rhwng aseswyr a dilyswyr allanol o ran hybu darpariaeth cyfrwng Cymraeg? Oni ddylai fod polisi recriwtio bwriadol i gynyddu gallu'r system i staffio cyrsiau cyfrwng Cymraeg? Trafodwyd ystyriaethau hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â'r gyfres FENTO o safonau/cymwysterau, a gofynnwyd pa mor realistig

fyddai disgwyl i ddarparwyr gydweithio mewn ffordd fwy cyfannol o ystyried goblygiadau masnachol cydweithrediad yn erbyn cystadleuaeth. Codwyd dau fater arall. Yn gyntaf, prinder deunyddiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn ymwneud â safonau galwedigaethol, prinder deunyddiau dysgu/hyfforddi, ynghyd â diffyg gwybodaeth ac arweiniad yn gyffredinol. Roedd camau cadarnhaol wedi'u cymryd mewn perthynas â datblygu addysgu Ieithoedd Modern ac ieithoedd Asiaidd yn y DU, ond yng Nghymru dylid fod wedi datblygu deunyddiau dwyieithog y gallai'r ieithoedd eraill fod wedi cael eu himpio arnynt yn hytrach nag fel arall, fel sydd wedi digwydd. Gofynnodd y siaradwr faint o gyllid a fyddai'n debygol o fod ar gael i gywiro'r gwendidau yn y system. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os yw'r cyrff cyllido yn bwriadu lansio ymgyrch benodol i baratoi darpariaeth CGC fawr ei hangen drwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth y cyflwyniad i ben gyda rhybudd. Er bod gan ymarferwyr amcan da o'r sefyllfa yn y sector, roedd prinder data manwl ynghylch sut yr oedd yr hyfforddiant/cymwysterau yn cael eu defnyddio yn y gwaith, ynghyd â'r data darniog am brofiadau wedi cofrestru, yn milwrio yn erbyn gwneud rhagolygon hyderus o dueddiadau yn y dyfodol.

Ymdriniodd y trydydd cyflwyniad, gan Liz Saville o Sgiliaith, â'r cwestiwn o sut y gallai dwyieithrwydd ddod yn norm yn y sector ôl-16. Gan ddechrau gyda dadansoddiad o'r ddarpariaeth bresennol, sy'n bitw a darniog, awgrymodd y siaradwraig y gellid gwireddu potensial dwyieithog cynhenid y sector ôl-16 drwy gynllunio pwrpasol, buddsoddi ac arweinyddiaeth gadarn. I ddangos hyd a lled y gefnogaeth i'r nod hwn, cyfeiriwyd at dystiolaeth ddogfennol ategol yng nghyhoeddiadau polisi diweddar Jane Davison, papurau ymgynghorol y Cynulliad, datganiadau a dogfennau blaenorol y Cyngor Cenedlaethol, a soniwyd am hyfforddiant ac achredu dwyieithog yn nhermau Cyfle Cyfartal. Roedd y sylfaen dros ddisgwyliadau o'r fath eisoes wedi'i gosod yn y ddeddfwriaeth, sef Deddf Addysg 1988 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a'r cwricwlwm cenedlaethol oedd y cyfrwng ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg i brofiad addysgol pob plentyn. Gellid peryglu'r datblygiadau cadarnhaol hyn pe na cheid ymrwymiad cyffelyb yn y sector ôl-16. Roedd cyfle yn awr i'r Cyngor Cenedlaethol ac Estyn fabwysiadu polisïau radicalaidd ac arloesol i adeiladu ar y sylfeini hyn.

Nodwyd pedair ystyriaeth berthnasol wrth feithrin medrau dwyieithog ar gyfer y gweithle:

1. Deunyddiau addysgu dwyieithog/cyfrwng Cymraeg;
2. Yr hyfforddiant ar gyfer athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr;
3. Y rhwydwaith o gymorth allanol; a
4. Y mecanwaith cyllido a fyddai'n hybu datblygiadau a rhagoriaeth.

Daeth y cyflwyniad i ben gyda thair neges bwysig i'r Cyngor Cenedlaethol os oedd am sicrhau bod manteision dwyieithrwydd yn cael eu gwireddu:

- Sicrhau parhad mewn perthynas â medrau dwyieithog;
- Egluro statws dwyieithrwydd fel thema gyffredinol groestoriadol;
- Bod yn feiddgar wrth greu mecanwaith cyllido newydd ar gyfer dwyieithrwydd.

Yn y pedwerydd cyflwyniad, gan Einir Wyn Thomas, Swyddog Datblygu Cymraeg i Oedolion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ymdriniwyd â'r sector Cymraeg i Oedolion, a gyllidir gan y Cyngor Cenedlaethol - ELWa. Trefnir y ddarpariaeth genedlaethol gan wyth consortiwm Cymraeg i Oedolion, tra ymgymerir â gwaith datblygu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a CBAC. Darperir cyllid o £3.1 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd, gyda

phwysedd o 1.25, sef 1.0 ar gyfer darpariaeth, 0.2 ar gyfer datblygu a 0.05 i'r consortia. Nid yw hyn yn cymharu'r ffafriol â'r pwysedd o 1.5 ar gyfer SSIE (ESOL). Dylid mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn fel mater o frys. Gan droi at niferoedd, bu twf cyson a sylweddol mewn cofrestriadau CiO, o 15,894 ym 1995/6 i 21,011 yn 2000/01. Bu llawer o'r twf hwn yn y sector Cymraeg yn y Gweithle; hwn yw'r maes sy'n tyfu gyflymaf, a'r un y mae pob sector, cyhoeddus a phreifat, wedi dangos diddordeb ynddo. Enghreifftiau o'r twf hwn yw'r 55 cwrs yn y gweithle a gynigir gan Goleg Gwent a'r hyfforddiant i 1500 a ddarperir gan y Ganolfan Iaith Genedlaethol ac ACEN. Diogelwyd cymorth allanol ar gyfer y gweithgareddau hyn hefyd, er enghraifft, mae arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cefnogi gwaith Prifysgol Abertawe, Cyngor Sir Powys a CYMAD.

Cyllidir gwaith datblygu cyfredol gan y Cyngor Cenedlaethol - ELWa, sy'n dyrannu £100,000 i gefnogi gweithgareddau Swyddog Datblygu (35k), Swyddog Arholi a'r Project ALTE (50k), a darpariaeth arholi CBAC (15k). Serch hynny, oherwydd diffyg buddsoddi mae'r maes yn crebachu. Rhwng 1995 a 1998 dyrannodd yr hen Gyngor Cyllido Addysg Bellach £600,000 i'r maes i ddatblygu darpariaeth ac adnoddau. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r cyfnod byr hwn o gyllido digonol, mae'r maes bellach wedi cael ei fwrw i'r ymylon ac nid oes unrhyw gyllid ar gael ar gyfer datblygu deunyddiau addysgu a dysgu i gynorthwyo'r 700 o diwtoriaid rhan-amser. Pan gymherir hyn â gwledydd eraill gwelir mor anfoddhaol yw'r sefyllfa yng Nghymru. Er enghraifft, mae Cymru a Gwlad y Basg yn debyg o ran poblogaeth a'r ganran sy'n siarad Cymraeg/Basgeg. Ond mae HABE yn derbyn 21-25 miliwn Ewro y flwyddyn i gyllido'r ddarpariaeth, datblygiadau a hyfforddiant yng Ngwlad y Basg.[6] Mae 40,064 o fyfyrwyr yn cael eu dysgu gan 1,837 o diwtoriaid mewn 140 canolfan yng Ngwlad y Basg. Os yw Cymru am efelychu hyn bydd angen i'r Cyngor Cenedlaethol ac eraill roi sylw i bedwar pwnc:

1. Buddsoddi mewn darpariaeth CiO os ydym am greu cenedl ddwyieithog;
2. Diwygio'r fethodoleg gyllido a chynyddu'r pwysedd CiO i 1.5;
3. Sefydlu canolfan a fydd yn gyfrifol am gadw golwg strategol ac am ymgymryd â gwaith datblygu;
4. Cydnabod bod angen cryn fuddsoddi i gwrdd â'r targedau a osodwyd gan y Cynulliad.

## Adroddiad ar y grwpiau trafod

Rhoddwyd y cwestiynau allweddol canlynol ynghylch cyfnodau a dilyniant ger bron y cyfranogwyr.

1. Beth yw'r prif rwystrau i ddilyniant rhwng cyfnodau gorfodol yn yr ysgol, dysgu ôl-16 a dysgu i oedolion?

---

[6] Am fanylion gweler N. Gardner, M. Puigdevall i Serralvo a C.H. Williams, 'Language Revitalization in Comparative Context: Ireland, the Basque Country and Catalonia,' yn C.H. Williams (gol.), Language Revitalization: Policy and Planning in Wales, University of Wales Press: Caerdydd, 2000, tt. 311-61. Gweler hefyd Zalbide, M. 'Normalización lingüística y escolaridad: Un informe desde la sala de máquinas'. Revista Internacional de los Estudios Vascos, 1999, 43, 2, tt. 355-424. Am ddata addysgol a gwybodaeth arall cyrchwch wefan Eustat, corff ystadegau llywodraeth Gwlad y Basg yn www.eustat.es

2. Beth yw'r bylchau yn ein gwybodaeth am ddilyniant a sut y dylem fynd i'r afael â'r rhain mewn ffordd amserol?
3. Ymhle yr ydym ni'n methu?
4. A yw cyflenwad yn cwrdd â (i) galw presennol (ii) galw cudd?
5. *<u>I sicrhau llwyddiant, beth y dylem ei wneud o hyn allan, a phryd?</u>*
6. Sut y gallwn gynllunio gwelliannau mewn darpariaeth o fewn amserlen realistig?
7. Hyfforddi'r hyfforddwyr yn fwy effeithiol - pa strategaethau sydd eu hangen?
8. Sut y gallwn ddatblygu hunan-gymorth a mentora effeithiol?

Unwaith eto cyflwynir trafodaethau'r cyfranogwyr ar ffurf themâu.

- Er mwyn sicrhau parhad mewn addysg ddwyieithog roedd yn hollbwysig datblygu perthynas fwy strwythuredig a gwybodus rhwng y gwahanol sefydliadau ar lefelau olynol yn yr hierarchaeth.
- Mae angen fframwaith cenedlaethol sy'n nodi'r anghenion a'r lefelau o ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant dwyieithog.
- Tra'n cydnabod bod llawer o ddysgwyr Cymraeg yn cymryd rhan yn y sector ôl-16 mae'n wir hefyd fod gan lawer o'r rhain gymhwysedd isel iawn yn y Gymraeg. Mae angen strategaethau i wella'r lefelau gorfodol o gymhwysedd a gyrhaeddir mewn ysgolion.
- Gan nad ydynt mor hyderus ac aeddfed, mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng y grŵp oedran 16-18 a dysgwyr o oedolion ym mhob cwrs.
- Yn yr un modd nid oes llawer o ddarpariaeth ar gyfer gwella cymhwysedd cyfrwng Cymraeg siaradwyr brodorol y mae angen sgiliau iaith ychwanegol arnynt, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu, i weithio mewn meysydd arbenigol.
- Tra'n cydnabod bod angen cryn fuddsoddi a chyfeiriad strategol canolog, mynegwyd pryder ein bod ni o bosibl eisoes yn colli sawl gwelliant pwysig a sicrhawyd o fewn a thrwy'r system oherwydd diffyg arweiniad yn ddiweddar.
- Gallai cyfrifoldebau'r Cyngor Cenedlaethol gynnwys gwneud ymdrech rymus i argyhoeddi cyflogwyr o werth hanfodol dwyieithrwydd, ac amlieithrwydd o bosibl hefyd. Fel yn achos pob ymgyrch farchnata o eiddo'r Cyngor Cenedlaethol, gellid gwneud hyn mewn ffordd weddol uniongyrchol drwy gyfrwng 'pecyn' o negeseuon sy'n pwysleisio gwerth cymdeithasol ac economaidd medrau dwyieithog.
- Credai rhai cyfranogwyr fod modiwlau sy'n benodol i le neu ranbarth yn debygol o gwrdd yn well ag anghenion y gweithle na chyrsiau generig.
- Mynegodd y rheiny a gynrychiolai ysgolion yn ne-ddwyrain Cymru eu dymuniad y dylai'r Cyngor Cenedlaethol hybu partneriaethau rhanbarthol a rhwydweithiau dwyieithog yn y rhanbarth hwnnw, oherwydd nad oedd yr amgylchedd presennol o fewn Colegau Addysg Bellach yn y rhanbarth yn gallu adlewyrchu 'cyd-destun diwylliannol Cymreig'.
- Cytunodd yr holl gyfranogwyr y gallai buddsoddiad mawr mewn meddalwedd a TG dwyieithog helpu i oresgyn llawer o'r gwendidau presennol heb wrth gwrs gymryd lle buddsoddi mewn hyfforddwyr ac addysgwyr medrus.
- Roedd cyfrifoldeb ar y Cyngor Cenedlaethol i roi arweiniad cadarn a chreadigol yn y maes hwn. I wneud hyn byddai'n rhaid iddo fabwysiadu dwyieithrwydd fel gwerth creiddiol ei hun a phwyso am fuddsoddiad sylweddol yn yr holl elfennau a drafodwyd hyd yma. Cydnabu'r grwpiau, serch hynny, fod angen blaenoriaethu a chael nodau tymor canolig a thymor hir ac roeddynt yn awyddus i fod yn rhan o'r

broses hon fel corff ymgynghorol, lled ffurfiol a allai gyfrannu at drafodaethau'r Cyngor.

**Sesiwn 2**
Gwnaed y cyflwyniad terfynol ar faterion cyflenwad gan Cen Williams, a gynrychioliai Uned Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru. Rhoddodd ddadansoddiad o wendidau strwythurol y trefniadau presennol, gan ddadlau fod prinder staff addas, adnoddau a hyder, bod rhai grwpiau'n anhyfyw a bod ansicrwydd ynghylch a oedd cydweithwyr yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog; roedd y gwahaniaeth a'r goblygiadau pedagogaidd yn annelwig yn aml. Oherwydd y diffyg cydlyniad a chynllunio integredig rhwng addysg cyn-16 ac addysg ôl-16, roedd cylch dieflig wedi'i greu a oedd wedi arwain at brinder cyrsiau AB ac AU cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn ei dro wedi cael effaith andwyol ar niferoedd ac wedi peri i lawer ddewis y Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg yn gyfrwng hyfforddi. Roedd rhai ymdrechion wedi'u gwneud i ymateb i'r ceisiadau cynyddol am hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, ond roedd y gofynion cyllido yn rhwystr i ddarpariaeth dymor hir gan nad oedd hi'n bosibl gwarantu niferoedd o flwyddyn i flwyddyn. Gellid ceisio ffyrdd o gyflymu cymhwysedd dwyieithog unigolyn drwy gynnig elfennau dwyieithog mewn cyrsiau a oedd fel arall yn rhai uniaith. Gofynnai hyn, fodd bynnag, am gynllunio sefydliadol ym meysydd defnyddio staff a datblygiad proffesiynol. Hyd yn hyn ni fu fawr ddim cydweithredu ar y lefel ryng-sefydliadol. Yn y de-ddwyrain, er enghraifft, lle bu twf sylweddol mewn ysgolion dwyieithog, mae mawr angen cynllunio cyrsiau, adnoddau a chydweithrediad rhyng-sefydliadol ar raddfa ranbarthol. Byddai'r holl ddiffygion strwythurol uchod yn cael eu lleddfu rhywfaint gan strategaeth gynllunio genedlaethol ar gyfer y sector ôl-16 a fyddai'n helpu sefydliadau i lunio cynlluniau iaith ac osgoi dyblygu arbenigedd ac adnoddau. Yr ysgogiad ar gyfer y diwygiad hwn fyddai sefydlu Canolfan Addysgu Cyfrwng Cymraeg Genedlaethol.

Mae Bwrdd Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru eisoes wedi cyflwyno'r ddadl i'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y Cynulliad, fel rhan o adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o Addysg Uwch, dros sefydlu canolfan rithwir genedlaethol i gefnogi addysg uwch cyfrwng Cymraeg, gan nodi'r potensial i ehangu hyn i gwmpasu pob addysg a hyfforddiant ôl-16. Ceir gyda'r cyflwyniad presennol ddogfennaeth fanwl a chynhwysfawr sy'n egluro'r angen am ganolfan o'r fath ac yn cynnig strwythur tebygol. (Gweler Atodiad 3.) Y cyfiawnhad yw y byddai'r ganolfan yn darparu'r lefel o arbenigedd ac ymrwymiad sydd ei hangen i weddnewid y ddarpariaeth ddwyieithog fach a darniog bresennol. Ymateb yw'r ganolfan i'r galw cynyddol am gyrsiau ar lefel uwch gan gyn-fyfyrwyr a myfyrwyr presennol ysgolion uwchradd dwyieithog a cholegau. Byddai gan y ganolfan ddwy ran: adran a fyddai'n gwasanaethu anghenion academaidd y colegau cyfansoddol ac adran a ymwnâi'n gyfan gwbl â pholisi a strategaeth. O fewn deng mlynedd rhagwelir y byddai canolfan o'r fath yn caniatáu cryn ddewis i ymgeiswyr o fewn y sector Prifysgol. Byddai'r ganolfan yn arwydd sicr o agwedd fwy radicalaidd ac ymroddedig ar ran y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau addysgol at gwrdd ag anghenion myfyrwyr dwyieithog yn y Brifysgol. Yn anad dim, o gael cyllid digonol, byddai modd sefydlu'r math o is-strwythur adnoddau canolog a fydd yn cynnal a datblygu'r addysg ddwyieithog sydd mor angenrheidiol os ydym am wireddu'r freuddwyd o gymdeithas ddwyieithog.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol rhoddwyd croeso cynnes i'r syniad hwn. Yn wir, y consensws oedd bod hyn yn arf hanfodol ar gyfer rhoi bywyd newydd i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, cododd llawer o gyfranogwyr gwestiynau megis a fyddai/ddylai canolfan o'r fath fod yn gyfan gwbl gyfrifol am yr ystod gyflawn o addysg a hyfforddiant dwyieithog ôl-16? Beth fyddai'r berthynas rhwng y ganolfan arfaethedig hon a'r Cyngor Cenedlaethol? Ble y byddai'n ffitio orau, o safbwynt strategol ac adnoddol? Pe bai canolfan o'r fath yn cael ei chyllido gan y Cyngor Cenedlaethol yn bennaf, byddai'n hanfodol i'r Cyngor fonitro cynlluniau iaith y sefydliadau addysgol hefyd i weld i ba raddau yr oedd eu datganiadau cenhadaeth yn cael eu gwireddu wrth iddynt hybu dwyieithrwydd y sefydliad. Ai'r Cyngor a oedd yn y sefyllfa orau i gydlynu ochr strategol datblygiadau o'r fath ac a allai ddefnyddio ei ddylanwad a grym gwleidyddol i gynhyrchu'r adnoddau angenrheidiol ac i gyllido datblygiadau cysylltiedig y tu allan i sector y Brifysgol? Pe câi canolfan o'r fath ei sefydlu a fyddai achos *prima facie* dros sefydlu Canolfan Cynllunio Iaith Genedlaethol o fewn y Cynulliad i oruchwylio datblygiad dwyieithrwydd ym mhob agwedd ar lywodraeth a gwasanaeth? Mae hyn yn clymu â syniadaeth bresennol asiantaethau eraill. Felly, er enghraifft, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi pwyso am ganolfan rithwir a redir yn ganolog gan y Cyngor Cenedlaethol, gydag is-safleoedd rhanbarthol yn cael eu sefydlu. Gallai system o'r fath hefyd fod yn rhan o agenda cynllunio cymunedol y Cynulliad, a gallai hefyd gynnwys cyfrifoldeb i wneud ymchwil i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dwyieithrwydd a Chymraeg i Oedolion. Gallai'r adnodd hwn weithio ar y cyd â'r Mentrau Iaith i fapio anghenion siaradwyr Cymraeg yn y gweithle.[7] Pe na wneid ymrwymiad traws-swyddogaethol o'r fath, yna roedd perygl y byddai'r gyfundrefn addysg unwaith eto yn gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo'r iaith ac yn wir dros oroesiad y Gymraeg yn y tymor hir.

**Sylwadau i gloi ac ymrwymiadau**

Diolchodd y cadeirydd, yr hwylusydd a chynrychiolwyr y Cyngor Cenedlaethol i'r cyfranogwyr am gyfres fuddiol a dynamig o sesiynau. Pwysleisiodd yr hwylusydd fod cryn gytuno ar y themâu allweddol yr oedd ef wedi eu nodi. Y themâu hyn oedd: arloesedd a syniadau newydd, casglu a dadansoddi data manwl dros gyfnod maith, arweiniad creadigol, normaleiddio dwyieithrwydd, cynllunio ymroddedig, persbectifau integredig a chyfannol ar rôl addysg a hyfforddiant o fewn cymdeithas a'r economi, marchnata sgiliau dwyieithog ac amlieithog, cysoni strategaeth ELWa â pholisïau'r Cynulliad. Roedd yn amlwg bod gan y Cyngor Cenedlaethol yr awdurdod a'r cyfrifoldeb i wneud cynnydd mawr gyda hybu addysg a hyfforddiant dwyieithog. Rhoddwyd ymrwymiad cadarn y câi meysydd allweddol ar gyfer datblygu polisi eu trafod ar y cyfle cyntaf ac, o gael cymeradwyaeth y Cyngor Cenedlaethol, y byddid yn bwrw ymlaen ag amryw o'r cynlluniau o fewn y flwyddyn galendr nesaf. Yn eu tro, diolchodd y cyfranogwyr i'r Cyngor Cenedlaethol am roi'r cyfle hwn iddynt ddylanwadu ar bolisi a gadawsont y cyfarfod o'r Grŵp Ffocws gyda disgwyliadau uchel.

Sylwer: Er bod cyflwyniadau a thrafodaethau'r Grŵp Ffocws yn ymwneud yn bennaf â'r Cyngor Cenedlaethol a'r addysg a hyfforddiant yr oedd yn gyfrifol amdanynt, codwyd rhai pwyntiau hefyd a oedd yn berthnasol i'r sector addysg uwch ac i'r

---

[7] Gweler y ddogfen 54/4 'Adolygiad y Cynulliad o'r Iaith Gymraeg: Cynllunio Dyfodol Dysgu Gydol Oes Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog/The Assembly's Review of the Welsh Language: Planning the Future of Welsh-Medium and Bilingual Lifelong Learning', Papurau'r pedwerydd cyfarfod ar ddeg a deugain o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, 30ain Tachwedd 2001, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd, tt.1-8.

Cyngor Addysg Uwch. Gallai fod yn fanteisiol i'r ddau Gyngor weithio gyda'i gilydd i ymdrin â'r rhain neu ddatblygu ymagwedd neu safbwynt "ELWa" ar rai materion.

**Cydnabyddiaeth**
Mae'r awdur yn ddyledus i'r holl gyfranogwyr am eu hymrwymiad a'u cyfraniadau. Mae'n ddiolchgar i Siân Eleri Hughes, o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a helpodd i recordio'r trafodaethau agored a'r sesiynau adborth. Cafwyd cymorth parod iawn gan Ros Granger o ELWa a fu'n darparu dogfennau a thystiolaeth, a hefyd gan holl gynrychiolwyr ELWa a oedd yn bresennol, wrth drafod goblygiadau y diwygiadau polisi arfaethedig.

**Cyfeiriadau**

CC - ELWa (2001a) Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft, Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa: Caerdydd.

CC - ELWa (2001b) Grŵp Ffocws Dysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog; nodiadau briffio. ELWa: Caerdydd.

Gardner, N. Puigdevall i Serralvo, M a Williams, C.H. (2000), 'Language Revitalization in Comparative Context: Ireland, the Basque Country and Catalonia,' yn C.H. Williams (gol.), Language Revitalization: Policy and Planning in Wales, University of Wales Press: Caerdydd, tt. 311-61.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) Gwlad Dysg/The Learning Country, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2001) Dogfen 54/4 'Adolygiad y Cynulliad o'r Iaith Gymraeg: Cynllunio Dyfodol Dysgu Gydol Oes Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog/The Assembly's Review of the Welsh Language: Planning the Future of Welsh-Medium and Bilingual Lifelong Learning', Papurau'r pedwerydd cyfarfod ar ddeg a deugain o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, 30ain Tachwedd 2001, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd, tt.1-8.

Williams, C.H. a Evas, J.C. (1997) The Community Research Project, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd.

Williams, C.H. (gol.), (2000) Language Revitalization: Policy and Planning in Wales, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Zalbide, M. 'Normalización lingüística y escolaridad: Un informe desde la sala de máquinas'. Revista Internacional de los Estudios Vascos, 1999, 43, 2, tt. 355-424.

**Atodiad 1**

Nodyn: Nid yw Atodiad 1 yn cael ei atgynhyrchu ar gyfer adroddiad y Grwp Ffocws gan fod yr un wybodaeth yn Atodiad 1 tystiolaeth y Cyngor Cenedlaethol.

**Atodiad 2**

**CYNGOR CENEDLAETHOL - ELWa**
**Y GRWP FFOCWS DYSGU CYFRWNG CYMRAEG A DWYIEITHOG**
**NATIONAL COUNCIL - ELWa**
**WELSH MEDIUM AND BILINGUAL LEARNING FOCUS GROUP**

**7/8 TACHWEDD/NOVEMBER**

| ENW/NAME | CORFF/ORGANISATION |
|---|---|
| Alison Allan | Cyngor Addysg Uwch - ELWa |
| Cefin Campbell | Mentrau Iaith Myrddin |
| Alun Charles | Estyn |
| Brian Clarke | Coleg Digidol Cymru |
| Clifford Davies | Cyngor Sir Powys |
| Helen Davies | DYSG |
| Haydn Edwards | Coleg Menai; Aelod - Cyngor Cenedlaethol - ELWa |
| Hywel Evans | Menter a Busnes |
| Marianne Evans | Cyngor Cenedlaethol - ELWa |
| Arwel George | Ysgol Penweddig/CYDAG |
| Ros Granger | Cyngor Cenedlaethol - ELWa |
| Ellis Griffiths | Ysgol Gwynllyw |
| Siân Eleri Hughes | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Dylan Iorwerth | Golwg |
| Dafydd Iwan | Sain/Cyngor Gwynedd |
| Grenville Jackson | Cyngor Cenedlaethol - ELWa |
| Ann Jenkins | Cyngor Cenedlaethol - ELWa |
| Kathryn Jones | Cwmni Iaith |
| Meirion Prys Jones | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Geraint Wyn Jones | Canolfan Bedwyr |
| Ann Keane | Estyn |
| Merfyn Morgan | ACCAC |
| Geraint Parry | Cyfle |
| Helen Prosser | Canolfan Dysgu Cymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| Ian Rees | Coleg Meirion-Dwyfor |
| Elen Rhys | Coleg Digidol Cymru |
| Rhun ap Robert | Acen/Coleg Digidol |
| Liz Saville | Sgiliaith |
| David Lloyd Thomas | Cyngor Cenedlaethol - ELWa |
| Einir Wyn Thomas | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Siân Thomas | Fforwm Cymru Wledig |

| | |
|---|---|
| Cen Williams | Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, Brifysgol Cymru |
| Colin Williams | Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| Martin Wright | CYD |